

Nodiadau ar

# *Y Tŵr*

Gwenlyn Parry

Nodiadau i fyfyrwyr  
Cymraeg Safon Uwch gan

Manon Jones Maddock



© Prifysgol Aberystwyth, 2012 ©

Mae hawlfraint ar y deunyddiau hyn ac ni ellir eu hatgynhyrchu na'u cyhoeddi heb ganiatâd ysgrifenedig perchennog yr hawlfraint.

Paratowyd gan CAA, Prifysgol Aberystwyth, Plas Gogerddan, Aberystwyth, Ceredigion SY23 3EB ([www.aber.ac.uk/caa](http://www.aber.ac.uk/caa))

Dyluniwyd gan Richard Huw Pritchard.  
Golygwyd gan Fflur Pughe a Cathryn Gwynn.

Noddwyd gan Lywodraeth Cymru.













### **Cydnabyddiaethau**

Diolch i'r canlynol am ganiatâd i atgynhyrchu dyfyniadau o ddrama *Y Tŵr*, Gwenlyn Parry:

- Ymddiriedolaeth Lenyddol y diweddar Gwenlyn Parry
- Gwasg Gomer (*Y Tŵr*, 1979)

Diolch i Rhian Griffiths, Bleddyn Owen Huws, Tegwen Llwyd a Cheryl Roberts am eu harweiniad gwerthfawr.

## CYNNWYS

1	 Y ddrama – cyflwyniad	1
2	 Gwenlyn Parry a'r theatr	2
3	 Act I – crynodeb	3
4	 Act II – crynodeb	6
5	 Act III – crynodeb	11
6	 Ar drywydd thema	16
7	 Symboliaeth	27
8	 Cymeriadau	29
9	 Iaith y ddrama	37
10	 Dyfyniadau defnyddiol	39
11	 Crefft	43
12	 Trafod	45

## 1. Y ddrama – cyflwyniad

Dau gymeriad yn unig sydd yn *Y Tŵr* ac yn ystod y ddrama gwelwn eu datblygiad yn ystod tri chyfnod gwahanol yn eu bywydau. Byw mewn tŵr y maen nhw; yn wir, dywedodd yr athronydd, Dewi Z. Phillips mai 'y tŵr yw eu bywyd.' Taith gŵr a gwraig sydd yma, felly, o gyfnod eu caru cyntaf yn ystod eu glaslencyndod yn yr act gyntaf, i'r cyfnod canol oed yn yr ail act lle mae gwrthdaro ffyrnig a chwerw rhyngddynt, ac yna i'r diwedd anorfod lle na ellir ond teimlo cydymdeimlad tuag at y ddau gymeriad yn eu henaint.

Dau gymeriad digon cyffredin ydyn nhw – nyrs a thrydanwr – ond yng ngeiriau John Ogwen a Maureen Rhys, yr actorion a chwaraeodd y rhannau am y tro cyntaf ym 1978:

'Mawredd Gwenlyn ydi ei fod o wedi llwyddo i wneud pobl gyffredin yn ddiddorol fel eich bod chi eisiau mynd trwy'r daith yma efo nhw – rhoi chwyddwydr ar fywyd cyffredin a medru creu drama o'i gwmpas o. Gwneud i electrیشان a nyrs siarad dros bawb.'

Dylid nodi hefyd nad oes enwau gan y ddau gymeriad, ac felly mae hyn yn awgrymu eu bod yn ein cynrychioli ni i gyd.

Dyfynnir cwpled o waith Goronwy Owen ar ddechrau'r ddrama:

'Hafal blodeuyn hefyd  
I'n hoen fer yn hyn o fyd.'

Mae'n hanfodol deall y geiriau hyn er mwyn deall neges Gwenlyn Parry yn y ddrama – sef pa mor fyr yw ein bywydau, a bod yn rhaid byw bywyd i'r eithaf gan y bydd marwolaeth yn ein hwynebu cyn i ni droi. Mae pob un ohonom yn byw yn y tŵr, ac yn y ddrama hon mae'r dramodydd yn gwneud i'r gynulleidfa feddwl am wewyr ac angerdd, tristwch a hapusrwydd – a phwrpas – y profiad o fod yn fyw.

Yng ngeiriau Gwenlyn Parry ei hun:

'Onid gofyn y tri chwestiwn crefyddol mawr mae pob drama o bwys?:  
"O ble y dois i?"  
"Pam ydw i yma?"  
"I ble rydw i'n mynd?" '

## 2. Gwenlyn Parry a'r theatr

Er mwyn gwerthfawrogi dramâu Gwenlyn Parry, rhaid bod yn ymwybodol o gyd-destun theatr yr Abswrd. Datblygwyd y math yma o theatr gan ddramodwyr byd enwog fel Harold Pinter, Eugène Ionesco a Samuel Beckett (*Wrth Aros Godot*) yn ystod ail hanner yr ugeinfed ganrif yn arbennig. Ei neges oedd bod bywyd yn ddiystyr ac, oherwydd hynny, yn abswrd. Mae'r math yma o theatr yn aml yn swrrealaidd, yn ddi-reswm, yn ddi-blot. Mae breuddwydion dryslyd yn aml yn chwarae rhan ynnddi ac er bod y genre yn fath ar gomedï, mae elfennau trasig hefyd yn rhan ohoni. Yn aml, gwelir y cymeriadau wedi'u caethiwo mewn sefyllfaoedd anobeithiol ac yn cael eu gorfodi i ailadrodd ac ail-wneud yr un pethau o act i act gan ddefnyddio techneg o chwarae ar eiriau. Gwelir yn aml pa mor ddiwerth yw geiriau ac mor anodd yw mynegi teimladau. Daeth theatr yr Abswrd yn boblogaidd yn ystod y 1950au cynnar, er bod ei gwreiddiau yn ymestyn yn bell yn ôl i ddyddiau y theatr Roegaidd.

Roedd Gwenlyn Parry yn bont rhwng y theatr Gymraeg a theatr yr Abswrd. Er bod eraill wedi defnyddio technegau'r abswrd, ef oedd yr un a fabwysiadodd yr asiad rhwng delwedd ac ystyr fel ei brif arddull. Yn y ddrama hon, er enghraifft, gwelwn y tŵr fel symbol gweledol o daith bywyd mab a merch. Dyma'r dechneg sydd yn arwain Beckett i osod gwraig mewn pentwr o sbwriel bywyd yn *Happy Days*, neu Ionesco i osod ei athro i siarad ag ystafell o gadeiriau gwag. Ond yn wahanol i'r abswrddwyr, nid pen draw neges Gwenlyn Parry yw diffyg ystyr o angenrheidrwydd. Mae'r gŵr yn ailymddangos fel llanc ifanc ar ddiwedd *Y Tŵr* a thrwy hynny cynigir ymateb mwy cadarnhaol i ddiffyg ystyr bywyd.

Gwenlyn Parry hefyd ddaeth â thechnegau teledu i mewn i fyd y theatr o ran arddull ysgrifennu. Y brif elfen mewn drama deledu yw bod rhaglen yn cael ei hadeiladu o olygfeydd byr, yn para dwy neu dair munud neu lai. Dyma a ddefnyddir wrth greu operâu sebon fel *Pobol y Cwm* neu *Eastenders*. Wrth i waith Gwenlyn Parry ddatblygu, gwelir ei fod ef hefyd yn ysgrifennu mewn golygfeydd byr rhwng y cymeriadau sy'n para tua phump i ddeg munud. Amlygir y dechneg yma yn *Y Tŵr* pan mae misoedd yn mynd heibio o fewn yr un olygfa.

Wrth ysgrifennu yn y math yma o arddull, mae Gwenlyn Parry hefyd yn symud i ffwrdd oddi wrth strwythur yr olygfa hir gyda'r araith ganolog, sef prif arddull y theatr Gymraeg. Cymharwch *Y Tŵr*, er enghraifft, gydag ail act *Siwan* lle disgrifir crogi Gwilym Brewys, neu drydedd act *Siwan* lle ceir dwy araith fawreddog, neu'r darnau adrodd y gellid eu tynnu o *Buchedd Garmon*. Gallwn feddwl hefyd am *Ac Eto Nid Myfi*, John Gwilym Jones, sydd yn ddarniog o ran natur ond eto yn dibynnu'n llwyr ar effaith areithiau emosiynol a myfyrgar.

Yn *Y Tŵr*, y mae rôl ganolog i'r gynulleidfa fel cof y cymeriadau. Y gynulleidfa sydd yn gwrando ar araith yr Hen Wŵr ac yn ei chymharu â sgysiau'r llanc a'r gŵr pan oedden nhw'n iau. Y gynulleidfa sy'n adnabod y celwydd yn y geiriau ac yn sylweddoli hefyd bod hunan-dwyll yn gymorth i anghofio hen greithiau'r gorffennol.

### 3. Act I – crynodeb

Ail ystafell y tŵr yw lleoliad yr act gyntaf, ac mae'n amlwg nad ystafell isaf y tŵr sydd yma. Gwelir ffenest yng nghefn y llwyfan, a ddefnyddir fel sgrin hefyd, ac arni gwelir bachgen a merch ifanc yn chwarae'n hapus ar y traeth. Mae'n amlwg mai dyddiau plentyndod y ddau gymeriad a ddarlunnir yn y lluniau ar y sgrin, ond bellach, maen nhw wedi cyrraedd yr ystafell hon. Llenwir y llwyfan â golau gwyrdd, sy'n symbol o laslencyndod y ddau gymeriad. Mae'r Ferch yn datgan, 'Dwi yma!', ac yn amlwg yn falch ei bod wedi cyrraedd y cyfnod hwn yn ei bywyd. Mae'r Llanc yn fwy petrusgar gan ei fod yn ofni bod rhywun yn mynd i ddod ar eu traws wrth iddi hi ei annog i ddod i'w charu. Yn yr act gyntaf mae'r Llanc o dan ddylanwad ei fam, a chyflwynir ni i'r syniad nad yw ei fam am ei weld yn tyfu i fyny ac aeddfedu. Gwell gan y Llanc fyddai dringo'r grisiau yng nghornel yr ystafell a symud i'r llawr nesaf, lle na fyddai neb yn ei weld, gan hepgor cyfnod ieuentid ac anelu am fywyd fel oedolyn.

Llanc: Ti'n gêm...? (*Yn edrych i dop y grisiau*)

Merch: (*Yn obeithiol*) Beth?

Llanc: I fynd fyny 'na... i'r stafell nesa.

Merch: Ond newydd gyrraedd fan hyn 'dan ni.

Llanc: Mi fydd hi'n llawer saffach!

Merch: Gwranda! Tria ddallt...

Llanc: Ucha'n byd, gora'n byd, – 'mhell o gyrraedd pawb... neb i specian.

(tud. 17)

Nid yw'r Llanc wedi deall ei fod yn gorfod byw trwy gyfnod glaslencyndod. Tra bod ar ei fam eisiau dal ei gafael arno a rheoli ei fywyd, mae'r Ferch yn credu ei bod hi yn aeddfetach na hynny ac mae arni hi eisiau datblygu eu carwriaeth trwy ddechrau ar berthynas rywiol. Wrth drafod rhyw mae'r Ferch yn cyhuddo'r Llanc o fod yn gwbl ddbrofiad – mae'n dweud wrtho y byddai'n well iddo fynd adre i gysgu gyda'i fam yn hytrach na chael perthynas rywiol gyda hi:

Merch: (*Yn goeglyd*) Pwy ddiawl ti'n feddwl sy 'na – dy fam?

Llanc: (*Yn codi ei wrychyn*) Yli, llai o hynna...

Merch: Dos adra i gysgu hefo *hi* 'ta.

Llanc: (*Tymer yn codi*) Dwi'n deud wrthat ti...

Merch: Gysgi di hefo neb arall yn ôl bob golwg...

Llanc: (*Yn wyllt*) Nei di fod yn ddistaw...?

Merch: (*Bron mewn sterics*) A tasat ti, fasat ti ddim yn gwbod be i neud.

(tud. 18)

Mae'n amlwg, hyd yn oed ar ddechrau'r ddrama, eu bod mewn perthynas danllyd ar waetha'r atyniad sydd rhyngddynt. Mae'r Llanc yn taro'r Ferch ar ôl yr olygfa hon ac mae'r storm allanol hon yn symbol o'u perthynas. Mae'r cweryl yn clirio'r awyr a deallwn y gwirionedd am berthynas y Llanc a'r Ferch yn yr act gyntaf – er y gwrthdaro a'r ffraeo am eu perthynas rywiol eiliadau ynghynt, ac er i'r Llanc ei tharo, mae'r Ferch yn cyfaddef ei bod yn 'teimlo'n saff hefo ti'. Y mae'r ddeuliaeth yma yn nodwedd o'u perthynas a'u taith yn yr act gyntaf.

Cyflwynir ni i un o brif themâu'r ddrama wrth i'r ddau drafod marwolaeth. Nid oes ar y Ferch ofn marw, ond mae arni ofn sut y bydd hi'n marw:

Merch: Fyddi di ofn marw?

Llanc: (*Ar ôl saib fer*) Ma' pawb ofn marw.

Merch: Dwi ddim!

Llanc: (*Wedi synnu rŵan*) Nac wyt ti?

[...]

Merch: Wel... 'di marw'n cyfri dim i mi – ar ôl marw ... be sy'n digwydd wedyn felly!... dwi'n hidio fflwjan am hynny ... *sut* bydda i'n marw 'di'r peth.

(tud. 21)

Mae'r Ferch wedi gweld ei mam yn marw o gancr – yn 'cael 'i byta'n fyw hefo poen a ninna'n gwbod bod hi'n mynd'. Yn yr act gyntaf mae hi'n disgrifio marwolaeth ei mam, ac yn eironig, dyma'r union beth fydd yn digwydd i'r Hen *Ŵr* yn yr act olaf. Oherwydd i'w mam farw'n ifanc mae hi'n benderfynol o fyw i'r funud – byw bywyd i'r eithaf.

Unwaith eto ceir golygfa danllyd pan gyhudda'r Ferch y Llanc o gael perthynas gyda'r 'beth dinboeth yna yn y cantîn'. Yma gwelir anaeddfedrwydd a chenfigen y Ferch wrth iddi dalu sylw i siarad gwag Sali Pritchard, sydd wedi bod yn hel straeon ac yn siarad y tu ôl i gefn y Llanc, gan ei gyhuddo o fod yn anffyddlon i'r Ferch. Fodd bynnag, tawelir ofnau'r Ferch gan y Llanc wrth iddo ddweud mai Sali Pritchard ei *hun* sydd ar ei ôl ac eisiau cael perthynas gydag ef:

Llanc: Sali Pritchard... ddudodd hi ddim mo'r stori arall debyg?

Merch: Pa stori arall?

Llanc: Bod *hi* bron â thorri croen 'i bol isio tro arna i 'i hun.

(tud. 25)

Dyma un enghraifft yn unig o sut y mae diffyg cyfathrebu yn creu rhwystrau iddynt.

Erbyn hyn mae'r Ferch yn barod i ddringo'r grisiau i'r ystafell nesaf. Ond mae'r Llanc yn ddigon hapus i aros lle y mae, sy'n arwydd arall o'i anaeddfedrwydd o bosib, am nad yw am fentro ac ysgwyddo mwy o gyfrifoldeb yn ei fywyd. Mae wedi dechrau ymlacio ar y llawr hwn erbyn hyn ac nid yw am dyfu i fyny'n rhy sydyn – 'Ma'n bosib i ni gael beth uffar o hwyl yn fama sti.' (tud. 27)

Ceir golygfa danllyd arall yn dilyn yr olygfa garu pan gyhudda'r Llanc y Ferch o fod yn

brofiadol yn y gwely. Eto, gwelir yma enghraifft o thema diffyg cyfathrebu agored, ac o led-dwyll rhwng y ddau wrth iddynt chwarae gyda geiriau:

- Llanc: Wel... ma' gin i hawl i gael gwybod 'toes? Ma' rhaid inni fod yn onast 'toes... onast hefo'n gilydd cyn cychwyn.
- Merch: Ddudis i rioed 'mod i'n fyrjin, naddo?
- Llanc: Ddudist ti rioed bod chdi wedi bod hefo neb arall chwaith.
- Merch: Wnest ti ddim gofyn i mi.

(tud. 30)

Sylweddola'r Ferch nad oes modd mynd yn ôl i lawr y grisiau – nad oes modd ail-fyw cyfnodau yn eu bywydau. Cyflwynir ni i'r syniad mai'r Tŵr yw bywyd – mae'r ddau gymeriad a ninnau, y gynulleidfa, yn nhŵr ein bywydau a hynny er mwyn i ni 'ddringo i'r top am wn i' (Llanc, tud. 32).

Mae'r Ferch yn barod i gamu'n ddi-ofn ar y grisiau i fynd i fyny'r tŵr, ond mae'r Llanc am ohirio'r eiliad i drafod a threfnu. Ai ymgais yw hyn i bwyllo a mwynhau ieuenctid, neu ai ofn beth ddaw nesa? Neu ai cred ofer bod modd rhoi trefn ar broses anorfod bywyd?

- Merch: Tyd... law yn llaw... awn ni i fyny gyda'n gilydd.
- Llanc: Ond ma' rhaid inni drafod y peth i ddechra – ma'n rhaid i ni drefnu.

(tud. 36)

Buan y sylweddola nad oes dewis ganddo ond bod gyda'r Ferch gan ei bod yn disgwyl babi. Yn yr olygfa hon gwelir bod ar y bachgen ofn ei fam a'i dad wrth iddo boeni am yr hyn fyddan nhw yn ei ddweud. Mae e'n awyddus iddi erthylu'r plentyn, ond nid yw'r Ferch am ystyried hynny. Gwelir anaeddfedrwydd y Llanc yma eto wrth iddo'i chyhuddo o fod wedi cysgu gyda dyn arall, ac felly nad ei blentyn ef y mae hi'n ei gario.

- Merch: 'I gadw fo... dyna i ti be... ma' fo'n fama. (*Yn rhoi ei llaw ar ei bol*) ... tu fewn i mi... yn rhan ohona i... fi pia fo... ti ddim yn dallt?
- Llanc: (*Ar ôl saib hir*) Chdi falla!
- Merch: Be?
- Llanc: Dwi ddim yn gwbod, nacdw?
- Merch: Ddim yn gwbod be?
- Llanc: Ma' fi pia fo!

(tud. 42-43)

Yma mae'r dramodydd yn cyfleu pa mor anodd yw hi i wybod y gwirionedd am sefyllfaoedd bywyd, ac i ymddiried yn llwyr yn rhywun arall.

Erbyn diwedd yr act gyntaf sylweddola'r ddau mai'r unig ddewis sydd ganddyn nhw yw dringo'r grisiau i'r ystafell nesaf yn y tŵr a wynebu bywyd gyda'i gilydd a chyfnod newydd yn eu bywydau.



## 4. Act II – crynodeb

Yr un ystafell a welwn ar ddechrau'r ail act o ran siâp y llwyfan – ar wahân i'r golau melyn sy'n symboleiddio diwedd cyfnod canol oed, a dechrau hydref bywyd. Erbyn hyn, mae'r ferch yn yr act gyntaf wedi aeddfedu'n fenyw ganol oed ac mae'r llanc hefyd wedi heneiddio, yn colli ei wallt ac wedi magu pwysau – 'ychydig yn foliog'. Maent wedi bod allan yn cymdeithasu gyda D.J., pennaeth y Gŵr yn y gwaith, ac mae'n amlwg fod y Gŵr wedi meddwi ar ôl iddo 'yfad' i wisgi fel tasa fo ar fynd allan o ffasiwn'. Roedd ar y Gŵr eisiau gwneud argraff ar D.J. a thwylla'i hun i feddwl ei fod wedi llwyddo, ond fe wnaeth ffŵl ohono'i hun a synhwyrwn fel cynulleidfa mai fersiwn y Wraig o'r noson sy'n gywir.

Gwraig: (*Yn aros*) A be am y blydi stori 'na gin ti am y nysn?

Gŵr: (*Gwên fawr*) Oeddat ti'n licio hi?

Gwraig: O'n i ddim yn gwybod lle i roi fy hun o gwilydd – dduda i hynna wrthat ti am ddim.

(tud. 47)

Mae'r Gŵr yn meddwl iddo glywed sŵn – 'math o sŵn... tinc' – ac maent yn ystyried tybed ai arwydd yw hwn iddynt ddringo i'r llawr nesaf. Mae'r syniad yma yn cynhyrfu'r Wraig, sy'n siwr nad yw'r amser wedi dod i ddringo'r grisiau nesaf eto.

Gwraig: Dim rŵan! Dwi'n gwbod. Ma'n rhaid inni gymryd mwy o bwyll tro yma... nid rhuthro fel o'r blaen.

(tud. 48)

Yn yr act gyntaf roedd y Wraig yn sicr y dylent ddringo'r grisiau, ond mae'n cyfaddef mai camgymeriad fu'r penderfyniad i'w dringo – ac mae hi'n flin efallai eu bod wedi rhuthro mor gyflym i sefyllfa ganol oed, gyda'i siomiannau a'i dyndra. Nid yw'n awyddus i'w gweld yn symud yn rhy fuan i gyfnod nesaf eu bywyd. Hi, nawr, sydd am oedi.

Gwraig: (*Yn drist*) O'n i'n meddwl 'mod i'n gwbod!

Gŵr: (*Yn edrych i fyny*) Dwi ddim isio bod rhy hwyr chwaith.

Gwraig: Gwell hwyr na rhy gynnar. (*Mae tinc o ofn a phryder yn ei llais wrth edrych tua brig y grisiau*)... All fod yn ddigon i ni os awn ni i fyny rhy fuan eto.

(tud. 49)

Ond mae gan y Gŵr fwy o ddiddordeb yn yr argraff y mae wedi ei gael ar D.J. Mae'n amlwg nad yw'r Wraig yn credu iddo wneud argraff dda arno – ac mae'n glir bod cystadleuaeth fawr rhwng y Gŵr a Preis am ddirchafiad yn y gwaith. Mae'r Gŵr yn casáu Preis, ond gan fod Preis yn aelod o'r Seiri Rhyddion, nid oes sicrwydd ym marn y Wraig y bydd ei Gŵr yn cael y dirchafiad, nac ychwaith y caiff ei dderbyn i Lodge y Seiri Rhyddion i roi hwb i'w yrfa. Hi yw llais realiti yma. Cred y Gŵr, ar y llaw arall, mai ei brofiad ers iddo fod yn brentis gyda *D.J. Electrics* fydd yn bwysig, er i Preis fod mewn coleg ac ennill gradd.

Gwraig: A ti'n gwbod fel finna ma' dim am "asgwrn cefn" ma' nhw'n chwilio tro yma ond "pen" ... 'mennydd... (*Mae'n taro ei phen â'i bys*) – Bambocs!

Gŵr: (*Yn gwylltio braidd*) Ti'n meddwl na 'sgin i ddim 'ta?...

Gwraig: Dim dyna ddudis i...

Gŵr: Ti'n meddwl 'mod i'n dwp twyt? Ti'n meddwl 'mod i'n blydi twp!

Gwraig: Ddudis i ddim mo'r fath beth...

Gŵr: Ond dyna ti'n awgrymu 'tê – dŵad yn blaen... tyd!

(tud. 51)

Gwelir eto y siarad croes rhyngddynt wrth iddyn nhw arthio ar ei gilydd yn hytrach na chyfathrebu. Gobeithia'r Gŵr y bydd D.J. yn gweld trwy'r cyfan, yn gweld nad oes pwrpas i goleg ac addysg, ac y bydd yn penodi 'Un o hogia'r blydi werin'. Yn hyn, gwelir naifrwydd ar ran y Gŵr, a'i hunan-dwyll eto.

Ond daw yn glir hefyd fod y Gŵr yn gwybod bod D.J. yn cael perthynas rywiol gyda'i wraig.

Gŵr: Elli di wadu na tydio ddim yn dy ffansio di 'ta... elli di?

Gwraig: Be ddiawl wn i be ma' o'n ffansio.

Gŵr: Pam oedd o'n rhwbio'i bennaglinia hefo chdi dan bwrdd heno 'ma 'ta?... Dŵad hynny wrtha i.

(tud. 52)

Er bod yma awgrym o genfigen yng ngeiriau'r Gŵr, sy'n dystiolaeth bosib o'r cwlwm sydd rhyngddynt nhw o hyd, y mae yna hefyd awgrym nad yw'n poeni yn ormodol am berthynas ei wraig â D.J. Mae ei wraig yn ei herio ynglyn â'i ddiffyg ymateb i'r sefyllfa hon, gan nodi bod ei pherthynas â D.J. wedi bod yn fanteisiol iddo erioed. Nid oes gan y Gŵr ateb i hyn ac yn y cyfarwyddiadau gwelwn y 'daw rhyw gryndod o arswyd drosto' fel petai'n sylweddoli sut y mae bywyd canol oed wedi eu dieithrio. Pan mae'n pendroni a fyddai dringo'r grisiau i'r llawr nesaf yn brofiad gwahanol y tro nesa, mae yna awgrym eto o'r cariad a fu rhyngddynt wrth iddo godi ei law i gyffwrdd â'i hysgwydd, ond yna oedi cyn tynnu ei law yn ôl. Yn hyn, gwelir bod rhyw bellter a dadrith wedi tyfu'n rhan o'u bywydau canol oed, ond bob hyn a hyn mae tystiolaeth o'u cariad yn brigo i'r wyneb.

Gwelir bod y ddau yn sylweddoli eu bod yn agosáu at ddiwedd y cyfnod canol oed ar dudalen 54:

Gŵr: (*Yn mynd y tu ôl iddi ac edrych allan ei hun*) Noson braf! (*Dim ateb gan y wraig sy'n dal i syllu allan i'r nos yn freuddwydiol*)... Lleud llawn. (*Dim ateb*)... ogla dail 'di crino!

Gwraig: Ogla marw!

Gŵr: Beth!

Gwraig: Ma' popath yn marw y tymor yma... gas gin i'r Hydref!

Yma clywir tinc diflastod yn llais y Wraig a'i hanobaith wrth deimlo mai gaeaf eu bywydau yw'r unig beth o'u blaenau. Mae'r Gŵr, ar y llaw arall, yn ceisio ei orau i hel atgofion melys nes ei bod hi yn 'dechrau meddalau'.

Cofia'r Gŵr am y diwrnod y bu'n rhaid iddo gario'i wraig ar ei gefn i ben yr Wyddfa, gan gofio'n ôl i'w llencyndod pan oeddent yn teimlo'n agos at ei gilydd. Ond torrir ar draws yr atgofion gan sŵn trêen. Mae sŵn y trêen yn codi ofn ar y Wraig – mae'n gwneud iddi feddwl am ffarwelio a gadael, ond cysura'r Gŵr hi trwy ddweud fod trêen yn arwydd o gyrraedd hefyd. Deffra hyn atgof arall, wrth i'r Gŵr gofio am daith ysgol i Lundain pan wisgodd hi ffrog y gallai pobl weld trwyddi. Mae'n cofio pob eiliad o'r daith, a chofio sut yr oedd yn teimlo'n genfigennus fod pawb arall, yn ogystal ag ef, yn gallu gweld siâp ei chorff. Yn yr atgofion hyn i gyd clywn eu hiwmor a'u cyd-ddeall yn byrlymu wrth iddyn nhw gofio profiadau ieuencid. Am eiliad maen nhw fel petaen nhw wedi closio, ond diflanna'r eiliad wrth i feddyliau'r ddau wahanu i ddilyn atgofion personol, hiraethus.

Ar wahanol adegau, mae'r ddau fel petaent am ail-fyw blynyddoedd cynnar. Wrth gofio am sŵn y trêen, hiraetha'r Wraig am gael gweld Gwyn, eu mab. Gobeithia y daw i'w gweld, ac mae hi'n ceisio tynnu sgwrs â'i gŵr er mwyn ail-fyw dyddiau ei blentyndod, ond gwaith yw'r unig beth ar feddwl y Gŵr – adroddiad sydd i fod ar ddesg D.J. Gwelwn y ddau yn gwahanu i'w bydoedd ar wahân, a'r diffyg cyfathrebu rhyngddynt yn agor fel gagedor. Sylweddola'r Wraig wrth hel atgofion pa mor gyflym yr hedfanodd amser – eu mab wedi tyfu i fyny a gadael cartref a hwythau wedi cyrraedd canol oed cyn cael cyfle i droi.

Gwraig: ... Mi a'th y cyfan mor sydyn... croesi cae... (*Saib hir*) Dringo grisia... (*Saib*)... 'Dio ddim yn dy ddychryn di weithia?

Gŵr: M! (*Dal i wneud nodiadau*)

Gwraig: Dwi ddim hyd yn oed yn cofio pryd beidiodd o fod yn fabi a dechra bod yn hogyn. (*Saib*) Pryd dyfodd o'n ddyn? (*Saib*) Wyt ti'n cofio?

(tud. 61)

Mae'r Wraig yn gadael y Gŵr i'w waith papur ac yn rhoi ei throed ar ris cyntaf y grisiau. Mae hyn yn syfrdanu'r Gŵr ac yn hawlio ei sylw. Mae hi'n ceisio dyfalu beth fydd yn digwydd iddynt ar y llawr nesaf a daw'n glir bod y Gŵr yn barod i ddringo gyntaf. Mae hi'n ei atgoffa am yr adroddiad sydd i fod ar ddesg D.J. fore Llun, ond yn sydyn nid yw'r Gŵr yn poeni mwyach am y gwaith ac yn gweld na fydd ots am y fath dasg, na'i swydd, unwaith y byddan nhw ar y llawr uchaf. Bydd henaint yn gyfnod i anghofio'r gorffennol a gorffwyo.

Gŵr: Y stafell ola ydi... y stafell ucha... ti ddim yn 'i gweld hi?... Dyna'r wobwr am ddringo'r tŵr... bwrw dy flinder... ymlacio, gorffwyo!

(tud. 63)

Er bod y Gŵr yn barod i fynd, y tro hwn y Wraig sydd am bwylllo ac mae'n well ganddi weld ei gŵr yn mynd ymlaen hebdi. Dechreuau yntau ddringo ond ar dudalennau 64-65, gwelwn ei anallu i'w gadael hi ar ôl. Mae yna densiwn wrth iddo ei herio ac ymbil arni am yn ail, i ddringo gydag e. Yn y diwedd, cyhudda ei Wraig o fod eisiau llonydd i fod gyda D.J. Ond nid yw'r Wraig yn poeni dim.

Gŵr: Ro i un cyfla arall i ti. (*Mae tinc ofnus yn ei lais. Nid yw'r wraig yn ateb na symud gewyn*) Tyd... reit sydyn cyn i mi fynd. (*Nid yw'r wraig yn ymateb – dim ond dal i rythu arno*)... Ti'n meddwl 'mod i'n cogio'n dwyt... tynnu coes... dyna ti'n feddwl, 'tê?... (*Mae ei lais yn crynu gan bryder erbyn hyn*)... Meddwl amdanat ti ydw i, dallt... (*Dim ymateb*) ... ne mi faswn i wedi rhoi wib i fyny 'na ers meityn ... (*Mae'n gwegian yn arw yn awr ac y mae tinc wylofus yn ei lais*)... Hefo'n gilydd ma' hi wedi bod bob tro, 'te... ddaru ni rioed ddringo ar wahân, naddo... rioed... (*Mae'n ymbilio bron yn awr*) ... ti 'nghlŵad i...?

(tud. 65)

Mae'r ffaith ei fod yn barod i ddringo yn awgrymu dau beth. Yn gyntaf, mae'n awgrymu ei fod yn barod i heneiddio ynghynt na hi a symud ymlaen i gyfnod o orffwys, fel y gwelir yn yr act olaf. Yn ail, awgryma pa mor simsan yw eu priodas pan nad yw eu dyheadau'n gytûn. Mae'r olygfa yn crisialu eu hangen am ei gilydd, ac eto eu pellter oddi wrth ei gilydd. Mae hi yn edrych yn 'ddirmygus' arno ef; mae e'n edrych yn 'drist a hiraethus' arni hi.

Yn symbolaidd, mae dau wely ar y llwyfan, ac fe â'r ddau i orwedd ar wahân i gysgu. Trwy gyfrwng ffilm ar y sgrin yng nghefn y llwyfan, cawn ein hatgoffa o'r olygfa garu yn yr act gyntaf, ac mae'r cyfosodiad gweledol hwn yn fodd i danlinellu treigl amser yn ogystal â'n tywys i'r olygfa nesaf lle mae tensiynau a diflastod priodas i'w gweld yn glir.

Erbyn hyn mae'r Gŵr wedi colli ei swydd a'i wraig yn gorfod mynd allan i weithio. Methiant fu ei ymdrechion i ddod yn un o'r Seiri Rhyddion ac ni chafodd ddirchafiad yn y gwaith. Mae'n 55 mlwydd oed ac yn chwerw wrth iddo gyflwyno ei ddehongliad ei hun o'i sefyllfa, gan weld bai ar bawb a phopeth am iddo golli ei swydd. Mae ei hunan-dwyll yn rhemp wrth iddo anghofio – neu ddewis peidio cofio – sut y bu'n ceisio plesio D.J. a pha mor barod y bu ar un adeg i osod egwyddorion o'r neilltu er mwyn cael dyrchafiad. Gellir hefyd ei weld fel dyn sydd wedi methu, neu wedi dewis peidio newid gyda'r oes.

Gŵr: Am 'mod i wedi gwrthod chwara 'u gêm nhw – dyna i ti pam... o'n i'n ormod o Sosialydd to'n?... Hogia'r graig... gwrthod llyfu tin...

(tud. 70)

Mae ei Wraig yn cynnig gobaith iddo, ac yn awgrymu y gallai ddechrau busnes fel trydanwr, ond mae wedi gwylltio ac yn gweld ei fywyd fel methiant. Ceisia ei Wraig ei dawelu a'i berswadio i gymryd ei dabledi, ond tafla'r botel ar y llawr. Yn ei wallgofrwydd corfforol a geiriol, gwelir rhwystredigaeth y Gŵr a'i ddiffyg parch tuag at ei wraig. Y mae'r briodas fel petai'n dadfeilio'n llwyr.

Gŵr: (*Yn hollol orffwyllog rŵan*) Dos! 'Sneb yn dy gadw di... dos o 'ngolwg i...

(tud. 72)

Cyhudda ei Wraig o gael perthynas gyda D.J. unwaith eto yn yr act hon, ond oherwydd iddo ddod o hyd i waled D.J. yn ei bag a'i hysgrifen hi ar fil gwesty, mae ei gyhuddiadau yn ymddangos ar dir cadarnach. Yn ddilornus a nawddoglyd, mae'n pentyrru cyhuddiadau fel na all y wraig mo'u hateb, ac mae'r sefyllfa yn troi yn gas. Cymaint yw ei ddiecter a'i deimlad o fethiant nes ei fod yn colli arno'i hun yn llwyr ac yn 'dechrau ei pheltio yn

orffwyllog' a dim ond dal yn ôl mewn pryd rhag ei thagu. Y mae'r olygfa yn un frawychus a thruenus, ac wrth i'r cweir ddod i ben, gwelir y wraig yn 'ochneidio'n wylofus' a'r gŵr wedi 'llwyr ymlâdd.'

Gŵr: Dwi'n dda i ddim nacdw?... I uffar o ddim... dim hyd yn oed i 'ngwraig.

(tud. 75)

Daw'r ail act i ben gyda'r gŵr yn penderfynu cerdded ar ei ben ei hun i fyny'r grisiau y tro hwn, heb dalu sylw i'w wraig yn ymbil arno i aros amdani. Mae eu rôl wedi newid ers dechrau'r act. Hi, nawr, sydd yn ofni bod ar ei phen ei hun, tra bod yntau'n ei hanwybyddu hi. Ar waetha popeth, sylweddola mai ei gŵr y mae'n ei garu ac nad oes arni hi 'isio neb arall.'

Ond ai ei garu y mae hi, neu ai grym arferiad sy'n ei chymell i fyny'r grisiau? Ai ofni unigrwydd mae'r Wraig? Gellir dehongli'r sefyllfa mewn gwahanol ffyrdd. Yr hyn sydd yn glir yw bod yr ail act yn diweddu ar nodyn o gariad ac o bellter fel ei gilydd.

## 5. Act III – crynodeb

Mae'r llwyfan yn ymddangos fel ag y bu drwy'r ddrama. Y tro hwn, golau oren sydd yn llenwi'r ystafell, yn symboleiddio machlud haul a machlud eu bywydau. Erbyn hyn, mae'r Gŵr a'r Wraig yn hen iawn ac mae dringo'r grisiau yn fwrn arnynt: 'Ma'r grisia 'na'n mynd yn hirach bob tro' yw cwyn yr Hen Wraig. Ond yn wahanol i'r lloriau eraill yn y ddrama mae awyrgylch wahanol i'r ystafell hon oherwydd presenoldeb y set arall o risiau nad oedden nhw'n eu disgwyl. Mae'r ddau'n ystyried beth yw pwrpas y grisiau – i ble maent yn arwain:

Hen Wŵr ... I be gythral ma' isio grisia arall?

Hen Wraig: Dŵad ti!

Hen Wŵr: *(Mewn ychydig o banic rŵan)* Ond fama 'di'r stafell ddwytha ... awn ni ddim o fama ... 'sdim isio blydi grisia arall!

Hen Wraig: *(Fel petai hi'n gwybod yn amgenach)* Be ma' nhw'n dda yna 'ta?

Hen Wŵr: Ond dyna ddudon nhw ... diwadd y daith ... dim mwy o ddringo ... dyna ddudon nhw.

(tud. 78)

Maen nhw wedi cyrraedd cyfnod yn eu bywydau pan fydd yn rhaid iddynt wynebu marwolaeth. Maen nhw wedi dewis dringo pob set arall o risiau gyda'i gilydd, ond mae'r rhain yn wahanol – bydd yn rhaid gadael un ohonynt ar ôl.

Yn y rhan yma o'r ddrama mae'r ddau yn holi cwestiynau sydd fel petaen nhw hefyd yn gwestiynau am fywyd ei hun – 'Be 'dan ni isio?' 'Pam ma' rhaid?' Mae naws ysbrydol i'r iaith wrth iddynt drafod beth ddaw nesa wedi'r ystafell olaf. Mae Gwenlyn Parry'n ychwanegu dimensiwn crefyddol i'r ddrama yma wrth beri i ni holi – a oes bywyd ar ôl marwolaeth? Mae'r Hen Wŵr yn ddigon ffwrdd-â-hi ac nid yw'n credu bod yna dystiolaeth bod rhywbeth arall i ddod; awgryma mai rhyw 'ornament' yw'r syniad o rywle arall sy'n eu haros.

Hen Wŵr: 'Sdim byd uwchben ... 'dan ni'n dop y tŵr. *(Yn plygu allan i weld)*

Hen Wraig: Ti'n siŵr?

Hen Wŵr: *(Yn mynd at y grisiau eto)* 'Di ddim byd ond... 'peth' ... rwbath i ista arni ... ne i hongian petha ... *(Mae'n taflu ei gôt dros y canllaw)*

Hen Wraig: Ti'n medru gweld 'ta? *(Mynd at y ffenestr)*

Hen Wŵr: 'Sdim hoel cerddad arni ... dim hoel gwisgo ar y pren...

Hen Wraig: *(Wrth y ffenestr)* Alla i weld dim. *(Yn ceisio edrych i fyny y tu allan i'r ffenestr)*

Hen Wŵr: *(Yn chwerthin wrth ei fodd)* 'Di gythral o ddim ond... ornament!

(tud. 79)

Yn yr act olaf, mae henaint yn dod â'i ofidiau i'r ddau ohonynt mewn ffyrdd gwahanol. Gwelir dirywiad yng nghyflwr meddyliol yr Hen Wŵr wrth iddo lithro weithiau i'w ail blentyndod. Mae'n gas gan yr Hen Wraig yr eira, ond mae'r Hen Wŵr yn cyffroi fel plentyn wrth feddwl am eira, heb ystyried mai eu caethiwo a wna. Gobeithia'r Hen Wŵr y bydd Gwyn, y mab, a'u hwyrion yn dod i'w gweld dros y Nadolig. Nid yw'r Hen Wraig yn cyd-dynnu gyda'i merch yng nghyfraith, fodd bynnag, ac mae'n ei chyhuddo o gadw ei hwyrion oddi wrthi. Dyma gymeriad gwahanol iawn i'r Ferch yn yr act gyntaf, a oedd yn cyhuddo'r Llanc o fod dan reolaeth ei fam gan ei bod hi, yn eironig, am reoli Gwyn bellach.

Wrth iddyn nhw hel atgofion am y gorffennol, gwelwn y ddau yn llithro i'w bydoedd eu hunain. Mae'r Hen Wŵr yn cymysgu rhwng plant Gwyn a Gwyn ei hunan ac wrth iddo yntau hel atgofion am yr wyrion/Gwyn, mae hithau ar goll yn ei meddyliau blin am ei merch yng nghyfraith. Yn amlwg, mae hi wedi cael digon ar glywed yr un straeon drslyd yn cael eu hailadrodd gan yr Hen Wŵr, ac mae hi'n gorffen bron pob brawddeg iddo, o hir arfer.

Yn y diwedd, mae eu sgwrsio ffwndrus yn peri chwerthin mawr, ac fe deimlwn naws hen gynhesrwydd rhyngddynt am eiliad. Ymhen ychydig, fodd bynnag, mae sgwrs ailadroddllyd yr Hen Wŵr – am Wil Fflat – yn creu diflastod eto a hithau yn gorfod cywiro ei stori. Trwy gydol eu sgwrs, cawn y teimlad mai dim ond lled-wrando ar ei gilydd y maen nhw, ond eu bod yn adnabod hen ffyrdd ei gilydd yn dda.

Erbyn hyn, mae henaint wedi effeithio ar y ddau ohonynt – os yw ef wedi heneiddio'n feddyliol, mae ei chorff hithau wedi methu. Mae gollwng y jwg llaeth o'i dwylo yn symboleiddio hyn.

Hen Wraig: Un funud dwi'n gafal yn rwbath ... yn 'i deimlo fo'n galad yng nghledar 'y llaw i ... yna dim ... dim byd!

Hen Wŵr: *(Yn gafael yn ei llaw)* 'Da mi weld. *(Mae'n rhwbio)* ... Dyna ti. *(Yn cusanu cledar ei llaw.)*

Hen Wraig: Be sy'n digwydd i ni?

Hen Wŵr: Cylchrediad gwaed ... dyna i gyd.

Hen Wraig: Crino *(Yn freuddwydio)* ... cracio.

(tud. 86)

Mae'r Hen Wraig wedi cynhyrfu oherwydd ei methiant i ddal y jwg, ac yn gweld hyn fel arwydd o'r dyfodol sydd o'u blaen. Y mae gofal yr Hen Wŵr amdani a'i ymgais i'w chysuro yn adlewyrchiad o'r cwlwm perthyn rhyngddynt.

Yn union fel y jwg, mae bywyd wedi diflannu'n gyflym. Cofia'r ddau'r olygfa garu yn yr act gyntaf – ac wrth edrych yn ôl dros eu bywydau mae'r ddau yn atgoffa ei gilydd am harddwch a diniweidrwydd ieuencid; efallai yn eu hargyhoeddi eu hunain eu bod wedi cael llawer o hwyl yng nghwmni ei gilydd. Yn eironig, mae'r Hen Wraig yn ceisio addewid gan ei gŵr na fydd celwydd rhwng y ddau pan ddaw'r diwedd. Cofia unwaith eto am farwolaeth ei Mam ac mae'n mynnu: 'Dwi isio i ti ddeud y gwir wrtha i ... bob amser. Dim celu dim? Dim twyllo ... dim fel Mam... dweud yn blaen. (Yn edrych ar y grisiau eto) ... os bydd yr amsar wedi dŵad.' Mae marwolaeth ei mam wedi ei phoeni ar hyd ei bywyd – nid yw am farw fel y gwnaeth hi.



Cyfeiria'r Hen Wraig at y ffaith mai dim ond nhw ill dau fydd yna i'w gilydd pan ddaw'r eiliad olaf un. Mae hi'n ewyllysio i'r Hen Wŵr wrando ar ei dymuniadau taer pan ddaw'r diwedd ond – naill ai oherwydd dryswch ei henaint, neu am nad yw eisiau trafod hyn – mae'r Hen Wŵr yn newid y pwnc ac yn troi'r sgwrs at addurno'r ystafell ar gyfer y Nadolig. Mae am addurno'r grisiau, efallai er mwyn anghofio am eu bodolaeth, ond hefyd er mwyn dangos nad yw am adael i dristwch a defodau crefyddol daflu cysgod dros eu bywydau. Am gyfnod byr, mae'r Hen Wraig yn sirioli drwyddi.

Wrth i'r Hen Wŵr agosáu at y grisiau, mae ar yr Hen Wraig ofn ond mae yntau yn ei chynghori i beidio â dangos ei hofn – herio marwolaeth, fel petai. Mae'n dringo ychydig gamau gan ymgolli mewn adrodd straeon o'i orffennol, ac yn gwrthod troi yn ôl, er i'w wraig ymbil arno. Mae'n rhaid iddi hithau nawr ddringo ato yntau.

Yna, gwelir cyflwr meddwl dryslyd yr Hen Wŵr unwaith eto – mae wedi anghofio mai Preis gafodd swydd y rheolwr yn yr ail act, ac yn credu'n reddfol iddo golli ei swydd am mai ganddo ef oedd yr asgwrn cefn i gefnogi'r gweithwyr mewn streic. Cred mai ef ddywedodd, 'Stwffia dy job,' wrth D.J. Ni all yr Hen Wraig ei siomi trwy ddweud y gwir wrtho, ac nid yw am iddo regi – 'Rhag ofn!'

Hunan-dwyll dryslyd yw ei straeon i gyd, ystumio gwir sefyllfa y gorffennol er mwyn creu stori lle mae'n arwr. Ni all yr Hen Wraig ond rhoi ei phen yn ei dwylo ac wylo. Wrth gynhyrfu'n lân, mae'r Hen Wŵr yn pesychu a thagu ac yna'n llithro ar y grisiau. Mae hi am ei helpu i'w wely, ond mae e'n barod i roi cynnig ar ddringo eto – mae wedi cael digon, ac yn gwybod nad oes dewis ond symud i fyny'r grisiau, er bod ei wraig yn ei ddarbwylllo nad yw am ei weld yn mynd.

Hen Wŵr: Dim lawr ... i fyny ... ma' rhaid i mi ... (*Mae'n gwneud ymdrech arall i ymbalfalu i fyny'r grisiau.*)

(tud. 96)

Ar ddiwedd pob act, mae'r ddau wedi dringo'r grisiau gyda'i gilydd, ond y tro hwn, bydd pethau'n wahanol.

Hen Wŵr: Fydd hi'n wahanol tro nesa ...

Hen Wraig: Fydd hi?

Hen Wŵr: Ti'n gwbod be dwi'n feddwl twyt? (*Nid yw'r wraig yn ateb*) Dim ond un fydd yn mynd ... (*Saib*) ... dim hefo'n gilydd eto ... dim ond un fydd yn mynd i fyny'r grisia 'na tro nesa.

Hen Wraig: (*Gyda rhyw dristwch breuddwydiol*) Un ... ar y tro...

Hen Wŵr: Un yn gynta ...

Hen Wraig: A gadael y llall.

Hen Wŵr: Dyna'r drefn!

(tud. 96)

Nid yw'r Hen Wraig yn barod i weld ei gŵr yn marw eto, fodd bynnag. Mae hi'n addo gofalu amdano, a daw yr Hen Wŵr dros y pwl, ond yn amlwg wedi heneiddio'n sydyn. Mae



yna agostarwydd tyner yn yr olygfa hon, sy'n wrthgyferbyniad i'r hyn a welir ar y sgrin yn y cefndir, sef golygfa o ddiwedd yr ail act pan mae'r Gŵr yn curo'r Wraig.

Pan ddiffoddir y ffilm, gwelir bod yr Hen Wŵr bron fel petai mewn cadair olwyn. Deallwn na ddaeth Gwyn i'w gweld dros y Nadolig ac erbyn hyn mae'r Hen Wŵr yn methu yn gorfforol yn ogystal ag yn feddyliol – ni all gadw ei getyn ynghynn a myfyria ar sut y mae'r oes wedi newid. Ni fyddai ei dad yn ysmegu, cario glo, torri ewinedd na darllen papur ar y Sul. Byddai'n cadw'r Saboth yn sanctaidd. Mae ei atgofion yn llifo nôl.

Mae hi'n paratoi ychydig o fwyd babi iddo er mwyn iddo gael ychydig o faeth, a thrwy hynny yn gwneud yr union bethau i'r Hen Wŵr nad oedd hi am iddo eu gwneud iddi hi i'w chadw'n fyw. Y mae eu perthynas yn debycach i un rhiant a phlentyn ar y pwynt yma, a gwelir hi yn ceisio ei blesio trwy gydsynio â'i syniadau am wyliau haf mewn lle poeth. Nid oedd hi am iddo gelu'r gwir oddi wrthi hi wrth ddod tuag at y diwedd, ond dyma'n union mae hi'n ei wneud, yn rhannu'r freuddwyd am wyliau yn Torremolinos, am mai hyn sydd yn gysur cariadus. Mae eu sgwrs yn troi o fân bynciau megis gwyliau ac ysmegu i gwestiynau mwy dwys sy'n gwau trwy ei gilydd fel llif meddyliol.

Hen Wŵr: Be sy 'na tybad?

Hen Wraig: Ble?

Hen Wŵr: *(Yn edrych i fyny)* Fyny fancw. *(Mae'r hen wraig yn edrych i fyny hefyd. Cawn saib hir o ddistawrwydd wrth iddynt wneud hynny)*... Bownd o fod rwbath ...

Hen Wraig: Siŵr o fod!

Hen Wŵr: Oes neb yn sâff...

Hen Wraig: Ond ma' 'na risia... fasa hi ddim yn arwain i nunlla, na fasa?

Hen Wŵr: Dim ond grisia, falla ... dringo am byth.

Hen Wraig: Ma' bownd fod rwbath ... ar ôl yr holl draffarth ...

Hen Wŵr: Mynd ar goll ar y grisia ... y meddwl yn peidio ... y cof yn pallu...

Hen Wraig: Paid â dechra hel meddylia eto.

Hen Wŵr: Breuddwyd yn para am byth ...

Hen Wraig: Ma' hi wedi bod mor galad ... ma' bownd fod gwobr.

(tud. 102)

Mae'r Hen Wŵr yn edliw iddo'i hunan fethiannau ei fywyd, ac yn lle cytuno neu ymateb yn flin, mae ei wraig yn gwrthod ei eiriau yn llwyr ac yn ei sicrhau ei fod wedi bod yn ddigon iddi hi – 'fi a chdi ydi hi wedi bod erioed.' Yma, clywir nodyn o gydnabyddiaeth fod bywyd wedi bod yn heriol, ond ceir hefyd nodyn o faddeuant a chariad wrth iddyn nhw oroesi'r cyfan i fod gyda'i gilydd ar y diwedd – 'Dan ni wedi cael hwyl.' Y mae'r amseroedd annnifyr yn angof wrth iddyn nhw ail-fyw atgofion, lle mae'r Hen Wŵr yn drysu'n lân rhwng straeon y gorffennol.

Cofia am ddigwyddiadau'r actau blaenorol, ond mae amser wedi drysu'r gwir. Cofia roi liffet adref i'r ferch yn y gwaith a bod ei gŵr ar sifft nos. Cred mai'r ferch honno ddaeth i

mewn i'r swyddfa a'i demtio, ond ei wraig oedd hi mewn gwirionedd, a'r un ferch gafodd berthynas gyda D.J. a mynd i ffwrdd am benwythnos gydag ef i westy ym mherfeddion y wlad. Dyn oedrannus yn cofio bywyd mewn modd ffwndrus sydd yma. Mae'r Hen Wŵr hefyd yn bwrw amheuaeth ar beth yn union yw'r gwir. Gwelwn ddirywiad ei feddwl wrth iddo weld pethau sydd ddim yn bodoli.

Mae marwolaeth yn agosáu felly – ac mae'r Hen Wŵr yn amlwg mewn poen. Mae'n atgoffa'r Hen Wraig:

Hen Wŵr: (Yn sibrwd bron) Urddasol ...

Hen Wraig: Be ddudist ti?

Hen Wŵr: Chdi ... chdi ddudodd o ... pan ddaw'r amsar ... pan fydd dim ar ôl ... dim gobaith ...

Hen Wraig: Paid â siarad lol ...

Hen Wŵr: Ddim isio diodda ... 'mwyta'n fyw.

(tud. 106)

Wrth weld ei gŵr yn gwingo mewn poen, mae'r Hen Wraig yn chwistrellu dwywaith yn fwy o gyffur nag y dylai iddo. Mae'n parhau i ddweud celwydd golau wrtho, gan ddefnyddio idiom gyfarwydd nyrsio: 'Mi fyddi di'n well ar ôl hon.' Mae'r nyrs yn yr act hon yn wahanol i'w chymeriad yn yr actau blaenorol. Pan sonnir amdani fel nyrs yno, cysylltir y swydd â rhyw – 'A nyrs bach ifanc oedd hefo fi dallt ... hen ddiawl bach bowld ... yn siafio fi o gwmpas... 'n mhetha...'. Yn yr ail act cyhudda'r Gŵr y Wraig o fanteisio ar y sefyllfa o fod yn nyrs yn swyddfeydd *D.J. Electrics* 'Dach chi'n nyrs tydach cariad, jyst be 'dan ni isio – gweithiwrw 'cw'n cael 'nafu'n amal, rhaid cael rhywun i'w trin nhw...'

Erbyn yr act olaf mae'r nyrs yn amlwg yn yr Hen Wraig wrth iddi ofalu am yr Hen Wŵr, 'Mi fyddi di'n well ar ôl hon ... Cysga di 'ngwas i.' Mae awgrym cryf yma mai'r Hen Wraig roes ryddhad iddo yn y diwedd. Fel nyrs, gŵyr hi ei bod yn rhy fuan i roi chwistrelliad arall iddo – ond mae ei gŵr yn barod i farw.

Wedi'r chwistrelliad, llithra ei gŵr i rithfyd o feddyliau braf am baradwys o wyliau haf, gan roi ochenaid o foddhad. Y mae hi wedi ei 'ollwng' yn urddasol, fel y dymunodd. Mae'r Hen Wraig yn anwesu'r syrinj eto yn annwyl, sy'n awgrym o'i diolchgarwch a'i dyhead ei hunan hefyd, efallai, i weld diwedd ar y cyfan.

Daw'r ddrama hon i ben gyda lluniau ar y sgrin o'r Hen Wŵr fel llanc ifanc eto, yna'n wŵr canol oed, yna'n hen wŵr. Ar yr un pryd, gwelir yr Hen Wŵr yn dadwisgo haenau o ddillad, gan raddol droi yn ôl yn ddyn ifanc sy'n galw ar ei wraig i ymuno ag ef wrth ddringo'r grisiau. Ailadrodda rai o eiriau angerddol serch yr act gyntaf i'w denu, cyn diflannu.

Yna, clywir sŵn trê, ac yn y sŵn hwnnw, ac yn ebychiad olaf yr Hen Wraig – 'Trên!' – mae holl flynyddoedd amser, gyda'u mynd a dod, yn cywasgu ac yn rhuthro heibio mewn un symbol.

Mae'r dramodydd yn dangos i ni nwyd diniwed a chariad ieuencid yn troi yn ddadrith canol oed, yn gymysg ag adnabyddiaeth gyfarwydd priodas, cyn llithro yn y pen draw i dynerwch a gofal diwedd oes, er yr ofnau a'r dadfeilio trist.

Diwedd amwys sydd i'r ddrama. Nid yw Gwenlyn Parry yn cynnig atebion. Daw ein bywyd cythryblus i ben a phwy a wŵyr beth fydd yn ein haros wedyn. Y mae y grisiau yno o hyd.

## 6. Ar drywydd thema...

Mae sawl thema yn plethu drwy Y Tŵr, gan greu gwead o linellau a geiriau a delweddau sy'n cael eu hailadrodd neu eu hatsain. Yma, mae awgrymiadau am rai o'r themâu hynny, ynghyd â phwyntiau syml o'r ddrama yn dystiolaeth. Gellir ychwanegu at y themâu a'r pwyntiau a dyfyniadau yn ôl eich dehongliad personol.

### Ofn

#### Act I

Ofn marwolaeth	'... ar ôl marw... be sy'n digwydd wedyn felly! ... sut bydda i'n marw 'di'r peth.'
	Llanc – Ofni ei farwolaeth ei hun
Ofn y grisiau	'Fama 'dan ni i fod... a fama ma' rhaid i ni aros am dipyn... wel, tan fyddan ni'n barod beth bynnag.'
	Y Llanc yn ofni tyfu i fyny
Ofn y storm	'Ti ddim ofn 'ta?'
Ofn sŵn tu allan	Mae'r Llanc yn ofni bod rhywun yn gwranddo arnyn nhw ar ddechrau'r act.
Ofn ei bod yn disgwyl	Llanc: Ofn y cyfrifoldeb o fod yn dad
Ofn ei fam	Ofn ymateb ei fam pan glywith hi ei bod yn disgwyl
Ofn rhyw / merched	Y Llanc yn ddibrofiad
Ofni pobl yn barnu	Llanc yn ofni y bydd pobl yn eu gweld yn siarad ac yn ei farnu
Ofni'r trêrn	Y Llanc yn ofni gadael a ffarwelio
Ofni bod bywyd yn mynd yn rhy gyflym	Y Ferch: 'Na! Cau hwnna!'

#### Act II

Ofni bod bywyd yn mynd yn rhy gyflym	Y Wraig yn ofni dringo'r grisiau: 'Dwi ddim yn barod... Ma' hi lawar rhy gynnar inni.'
Ofni bod yn fethiant	Y Gŵr yn ofni nad yw'n ddigon da i fod yn rhan o'r Seiri Rhyddion.
Ofni darganfod y gwir	Y Wraig yn poeni y bydd ei Gŵr yn dod i wybod am ei pherthynas gyda D.J.
Ofni nad yw'n ddigon da	Y Gŵr: 'Ti ddim yn meddwl 'mod i ddigon da nac wyt?'
Ofni gwahanu	Ar ddiwedd yr act mae'r Wraig yn poeni y bydd hi a'i Gŵr yn gwahanu: 'Paid â mynd... Paid â 'ngadael i.'

**Act III**

Ofn marwolaeth	Nid yw hi am ddioddef wrth farw: 'Dwi ddim isio diodda... dim isio 'mwyta'n fyw.' Ofni colli'r Hen Wŵr: '... cheith o monat ti ... ddim rŵan...'
Ofn y grisiau	Poeni am y grisiau drwy gydol yr act – nerfusrwydd am beth sydd ar ben y grisiau: '... I be gythral ma' isio grisia arall?'
Ofni colli rheolaeth gorfforol	Wrth ollwng y jwg llaeth, mae'r Hen Wraig yn gofidio: 'Nid y jwg... Ti ddim yn dallt... Fi!... Fi!'
Ofni bod bywyd wedi diflannu'n rhy gyflym	Hen Wraig: 'Y cyfan wedi mynd mor sydyn...'
Ofni gadael un ar ôl	Gadael un yn unig ar ei ben ei hun: 'Dim ond un fydd yn mynd... dim hefo'n gilydd eto...'

**Gwrthdaro****Act I**

Mam y bachgen	Mae'r Ferch yn ei gyhuddo o fod o dan fawd ei fam – gwrthod dringo i'r llawr nesaf. Cyhudda ei fam o wrthod gadael iddo dyfu i fyny: 'Hi ddudodd te? Hi ddudodd wrthat ti am aros i lawr fanna?'
Rhyw	Mae y Ferch yn barod am berthynas rywiol, ond mae y Llanc yn poeni be ddywed ei fam. Y Llanc yn ei chyhuddo o gael rhyw gyda rhywun arall – ffrae fawr ar ôl caru.
Trais geiriol a chorfforol	Y Llanc yn rhoi clustan i'r Ferch ar draws ei boch.
Storm	Symbol o'r gwrthdaro rhwng y ddau gymeriad.
Perthynas	Mae hi yn ei gyhuddo o gael perthynas gyda Sali Prichard.
Dringo'r grisiau	Mae hi'n barod ond nid yw ef.
Y babi	Mae hi am gadw'r babi, ond mae'r Llanc am iddi gael erthyliad.

**Act II**

Tensiwn priodasol	Ar ôl cinio gyda D.J. dywed y Wraig wrth y Gŵr ei bod wedi cael digon. Diffyg cyfathrebu agored.
Y grisiau	Dadlau am pryd i ddringo – mae ef eisiau dringo, ond dyw hi ddim yn barod.

Trais geiriol a chorfforol	Cyhudda ei Wraig o gael perthynas gyda D.J.sy'n arwain at gweir treisgar.
----------------------------	---

## Diffyg cyfathrebu

### Act I

Diffyg gonestrwydd	Ni fu'r Ferch yn onest gyda'i mam wrth iddi farw Merch: Pawb yn deud clwydda wrthi bob dydd... bod hi'n edrach yn well... sôn am holides ha, fasa byth yn dŵad...
Osgoi rhoi atebion – siarad mewn cwestiynau	Wrth drafod rhyw, nid yw'r Llanc na'r Ferch yn ateb cwestiynau ei gilydd. Llanc: 'Dan ni ddim yn dwp chwaith... dwi'n gwbod pryd ma' merch wedi... Merch: Wedi be? Llanc: Wedi cael profiad. Merch: Sut? Llanc: Be ti'n feddwl 'sut'? Merch: Sut wyt ti'n gwbod 'mod i <i>wedi cael profiad</i> ... hefo pwy ti'n 'nghymharu i?
Amharodrwydd i drafod materion o bwys	Mae'r ddau wedi gwrthod wynebu trafod pryd i ddringo'r grisiau yn ystod yr act gyntaf Merch: 'Nest ti addo trafod, do? Llanc: Ond ma' hi ddigon buan i hynny... Merch: Ma' hi lawar rhy hwyr 'ngwas i. Llanc: Be ti'n feddwl, hwyr?
Gwahanol agweddau a lefelau aeddfedrwydd	Nid yw'r ddau yn trafod y babi'n aeddfed gyda'i gilydd. I'r Llanc, un opsiwn sydd, sef cael erthyliad. Nid yw'r Ferch am ystyried hynny o gwbl. Llanc: Ffeindio'r doctor iawn... a ti'n nabod digon twyt... 'sdim rhaid i neb wbod. Merch: 'I ladd o ti'n feddwl?

## Act II

Diffyg rheolaeth dros gyfathrebu ystyrlon – siarad gwag wrth feddwi	<p>Mae'r Gŵr yn feddw ar ôl y parti yn nhŷ D.J.</p> <p>Gŵr: Oedd o'n ffafriol imi ti'n meddwl?</p> <p>Gwraig: ( yn llawn anobaith) Be wn i...</p> <p>Gŵr: Ma' gin ti syniad 'toes... y petha oedd o'n ddeud.</p> <p>Gwraig: Chafodd o fawr o gyfla naddo – dim hefo chdi'n malu fel roeddat ti.</p>
Dieithrwch wrth i bynciau trafod gwahanol hawlio sylw'r ddau gymeriad	<p>Ei waith yw'r unig beth sy'n bwysig i'r Gŵr, tra bo'r Wraig yn hel atgofion am Gwyn.</p> <p>Gwraig: Os daw o... mi awn ni i gyd am dro.</p> <p>Gŵr: <i>(Yn mynd i nôl cas llaw a'i agor o)</i> Ma' fory yn ddiwrnod gwael i mi...</p> <p>Gwraig: I Goed Parcia...</p> <p>Gŵr: Ma' gin i bentwr o waith papur i ddal i fyny efo fo. <i>(Yn ymbalfalu am y llwyth papurau yn ei gas)</i></p> <p>Gwraig: Mae o wrth 'i fodd yn hel mwyar duon... ma' cnyda ohonyn nhw'n fanna.</p> <p>Gŵr: <i>(Chwilio am rywbeth yn wyllt)</i> Ble gythral mae'r <i>specification</i> Rio Tinto 'na?</p>
Ymbellhau wrth i fywyd droi'n ddiflas	<p>Nid yw'r Wraig yn barod i wrando ar drafferthion y Gŵr – mae'n cynnig tabledi iddo er mwyn iddo allu ymdopi. Dydyn nhw ddim yn eistedd i lawr i drafod eu problemau priodasol.</p> <p>Gwraig: Ti wedi cymryd dy dablets?</p> <p>Gŵr: Y bastards diegwyddor...!</p> <p>Gwraig: Ti'n gwranddo arna i?</p> <p>Gŵr: Be?</p> <p>Gwraig: Dy dablets di... ti ddim 'di cymryd dy dablets eto...<i>(Mae'n estyn y botel iddo)</i></p> <p>Gŵr: Blydi tablets! Ti'n meddwl bod yr atab mewn potal?</p>

## Act III

Henaint yn golygu bod y ddau gymeriad yn llithro i'w bydoedd eu hunain	<p>Nid yw'r Hen Wraig yn barod i gydnabod bod yr Hen Wŵr yn colli ei gof. Mae'r Hen Wŵr yn anghofio enwau a ffeithiau wrth hel atgofion, ond gwell ganddi hi feddwl am bethau cas i'w dweud am ei merch yng nghyfraith.</p> <p>Hen Wŵr: Ti'n cofio ni'n mynd â nhw i hel llus?</p> <p>Hen Wraig: A Duw sy'n gwbod 'mod i wedi trio 'ngora glas hefo hi...</p> <p>Hen Wŵr: A disgyn i'r baw gwarthag hwnnw... nefoedd, a drewi... ti'n cofio... pwy un ohonyn nhw oedd o dŵad?</p> <p>Hen Wraig: Ond cheith hi ddim dŵad rhyngddo i a'r plant.</p>
Defnyddio geiriau i gysuro ac osgoi wynebu gwirionedd	<p>Geiriau o gysur gwag mewn ymateb i sefyllfa ofidus.</p> <p>Hen Wŵr: Be ydi'r ots? 'Di ddim yn ddiwadd byd... 'Sdim rhaid cynhyrfu... hen jwg... fawr o werth i neb.</p>
Newid pwnc er mwyn osgoi gorfod trafod materion anodd	<p>Wrth addurno'r grisiau ag addurniadau Nadolig, mae'r Hen Wŵr yn atal unrhyw siarad a chwestiynau ynglyn â ble mae'r grisiau olaf yn arwain.</p> <p>Hen Wŵr: Mi plastrwn ni'r lle ma... bob twll a chongol... A fyddi di ddim yn nabod honna... fyddi di ddim yn nabod y grisia 'na ar ôl i mi orffan hefo hi.</p>

## Cenfigen

## Act I

Mae'r ferch yn genfigennus o fam y Llanc.	<p>Merch: Dy fam! ... Hi ddudodd te? ... Hi ddudodd wrthat ti am aros lawr fanna?</p>
Nid yw'r Ferch yn hapus bod y Llanc yn gweithio'n hwyr.	<p>Merch: Gwrandda di arna i 'ngwas i... ma' Sali Pritchard yn gweithio'n ych cantin chi hefyd... a ma' ganddi bâr o llygada gora welist ti rioed... Dim awgrymu, boi – deud! Ti wedi cael dy weld yn mynd i mewn 'na hefo hi – i'r tŷ!</p>

## Act II

Mae'r Gŵr yn genfigennus o Preis – sydd wedi cael addysg.	Gŵr: ... dim ond am i fod o wedi bod mewn rhyw blydi coleg tua Leicester 'na. ... O'n i'n brentis ar transfformars pan oedd hwnna ddim ond fflach yn llygad' i dad... Nid syth i mewn i Admin hefo crys pinc a sana i fatshio... Boi calad hefo profiad mae o isio'n Fanijar, nid rhyw blydi ponsan fel Preis.
Mae'r Gŵr hefyd yn genfigennus o'r sylw y mae'r Wraig yn ei dderbyn oddi wrth D.J. yn yr ail act.	Gŵr: Elli di wadu na tydio ddim yn dy ffansio di 'ta ... elli di? Pam oedd o'n rhwbio'i bennaglinia hefo chdi dan bwrdd heno 'ma 'ta?...
Mae'r Gŵr yn genfigennus bod bechgyn eraill yn gallu gweld siap corff ei Wraig ar y trip ysgol i Lundain.	Gwraig: Oeddat ti'n jelys 'ta? Gŵr: Berwi'n tŵn?
Mae'r Gŵr yn genfigennus o'r sylw mae D.J. yn ei roi i'w wraig erbyn diwedd yr ail act.	Gŵr: Dos am dy damad! ... Fuo 'na rioed stafell <i>First Aid</i> yna o'r blaen, naddo? Pawb drosto'i hun fuo hi rioed... ond mi welodd 'i gyfla, do? ... Fo ydi'r unig <i>batient</i> sy'n dŵad atat ti'n ôl be dwi'n ddallt!

## Act III

Mae'r Hen Wraig yn genfigennus iawn o'i merch yng nghyfraith – yn ei beio hi am nad yw Gwyn a'r plant yn dod i ymweld â nhw.	Hen Wraig: ... a ti'n gwbod amdani hi. Unrhyw esgus neith tro iddi hi rhag dŵad! ... ond dwi'n gwbod... ma hi'n berwi o genfigan... 'di ddim isio i'r plant gymryd ata i – dyna'r ffaith foel.
--	--

## Marwolaeth

## Act I

Mae'r Ferch yn poeni sut y bydd hi farw – oherwydd y boen ddioddefodd ei mam.	Merch: Wel ... 'di marw'n cyfri dim i mi – ar ôl marw ... be sy'n digwydd wedyn felly! ... dwi'n hidio ffliwjan am hynny ... sut bydda i'n marw 'di'r peth. Merch: 'Sw'n i ddim yn licio marw fel Mam ... cael 'i byta'n fyw hefo poen a ninna'n gwbod bod hi'n mynd. A methu gneud dim ynghylch y peth.
---	---



**Act II**

Unwaith eto mae'r Wraig yn cyfaddef nad yw hi am wynebu marwolaeth.	Gwraig: Ogla marw! Ma' popath yn marw y tymor yma... gas gin i'r hydref. Fydd y cnau ddim yn hir cyn pydru... a'r mwyar duon yn slwtsh!
---	---

**Act III**

Mae'r ddau gymeriad yn poeni am y grisiau ar y llawr uchaf – i ble maen nhw'n arwain?	Hen Wŵr: Ond fama 'di'r stafell ddwytha... awn ni ddim o fama... 'sdim isio blydi grisia arall! ... Ond dyna ddudon nhw, diwadd y daith... dim mwy o ddringo... 'Sdim byd uwchben... 'dan ni'n dop y tŵr.
Mae'r Hen Wraig yn dal i boeni am sut y bydd hi farw – nid oes arni eisiau poen.	Hen Wraig: Dwi ddim isio diodda... dim isio 'mwyta'n fyw... Pan ddaw amsar... pan fydd dim ar ôl... dim gobaith... dwi isio mynd!
Pan fo marwolaeth yn agosáu at yr Hen Wŵr mae'r Hen Wraig yn benderfynol nad yw'n barod i'w golli eto.	Hen Wraig: Naci... ofala i... dwi'n gwbod... cheith o monat ti... ddim rŵan 'ngwas i... ofala i am hynny.
Mae'r Hen Wŵr hefyd yn cydnabod mai un ohonyn nhw fydd yn gorfod dringo'r grisiau nesaf – bydd yn rhaid i un farw cyn y llall.	Hen Wŵr: Dim ond un fydd yn mynd... dim hefo'n gilydd eto... dim ond un fydd yn mynd i fyny'r grisia 'na tro nesa... Un yn gynta. Hen Wraig: A gadael y llall... Ond dim hefo'n gilydd tro nesa.

**Twyll/Rhagrith****Act I**

Mae'r Ferch wedi twyllo'r Llanc yn yr act gyntaf a rhoi'r gorau i gymryd y bilsen.	Llanc: Nid dyna ddudist ti naci... mynd ar y bilsan... dim byd i boeni... berffaith saff... dyna ddudist ti, te? Ond dyna ddudist ti'r bitch glwyddog. Merch: Nes i stopio'u cymryd nhw... Es i odd' arni.
Nid yw'r Llanc yn barod i dderbyn mai ef yw tad y babi.	Llanc: Dwi ddim yn gwbod, nacdw? Merch: Ddim yn gwbod be? Llanc: Ma' fi pia fo!... Mi ddudist ti dy hun ma' dim fi oedd y cynta.

## Act II

Mae'r Gŵr yn rhagrithiol iawn yn yr ail act – credu ei fod yn un o hogia'r werin, ond ar yr un pryd mae arno eisiau i D.J. ei helpu i fod yn un o'r Seiri Rhyddion.	Gŵr: Ma' f'enw fi i fyny dallt... a D.J. ei hun roth o... ac os ydi D.J. tu ôl i mi, dwi i fewn... Pwy sy'n mynd i wrthod? ... Ma' 'na fois uchel yn y Lodge 'na sy'n nabod i'n dda... mêts!... 'di sincio peintia' hefo'n gilydd... wel tydi D.J. ddim yn mynd i gael ei dwyllo... Dwi a fo wedi'n naddu o'r un graig... hogia'r blydi werin, dallt... boi calad hefo profiad mae o isio'n Fanijar.
Erbyn diwedd yr ail act, mae'r Gŵr wedi anghofio cymaint yr oedd ef am fod yn aelod o'r Seiri Rhyddion. Twylla ei hun na lwyddodd i gael dyrchafiad yn y gwaith am iddo wrth ymuno gyda'r Seiri Rhyddion.	Gŵr: Dyna pam dwi allan ar 'y nhin... dwi ddim yn gwisgo'r tei iawn, nacdw? ... pam ddiawl ti'n feddwl gâth Preis i neud yn fanijer...? Am 'mod i wedi gwrthod chwara'u gêm nhw – dyna i ti pam... o'n i'n ormod o Sosialydd to'n? ... Hogia'r graig... gwrthod llyfu tin... Ddarau nhw byth fadda i mi am be ddudis i am y tacla Masons 'na... "'dach chi'n bla ar y wlad yma," dyna ddudis i... "sut ddiawl gall neb fod yn perthyn i rheina a fotio i'r Blaid Lafur?" medda fi... Mi geisiodd D.J. 'i ora glas i mi joinio'r diawled unwaith... ti'n gwbod hynny... mi ddudwn i wrthyn nhw am stwffio'u blydi Lodge... y bastards...!
Mae'r Wraig wedi bod yn twyllo'i Gŵr yn cael perthynas gyda D.J. – wedi bod yn aros mewn gwesty tra bod gwraig D.J. yn yr ysbyty.	Gŵr: Duwcs drychwch... dy lun di a fo... a bil hotel... Nos Wenar a nos Sadwrn dwetha... 'Sdim rhyfadd dy fod ti wedi blino bora 'ma... gest ti dy weithio reit galad fwrw Sul, do?
Y Wraig yn dweud celwydd wrth ei Gŵr – ei bod wedi bod yn aros gyda Sali.	Gwraig: Ti'n gwbod 'mod i'n aros hefo Sali... Gofyn iddi 'ta... Gofyn iddi!... Ffonia hi os lici di... Ti'n ngalw fi'n glwyddog, 'ta?

## Act III

Nid yw'r Hen Wraig am i'r Hen Ŵr guddio dim oddi wrthi pan fydd yn wynebu marwolaeth. Ond dyma'n union wna hi pan ddaw angau i ran yr Hen Ŵr.	Hen Wraig: Dwi isio i ti ddeud y gwir wrtha i... bob amsar... Dim twyllo... dim fel Mam... dweud yn blaen... os bydd yr amsar wedi dŵad... dim siarad am holides fydd byth yn dŵad.
---	---

Cof yr Hen Wŵr yn twyllo'i hun ei fod wedi cael y swydd. Mae'r Hen Wraig yn penderfynu ei dwyllo hefyd a gadael iddo gredu iddo gael y swydd.	<p>Hen Wŵr: ... O oedd, mi oedd D.J.'n gwbod ma gin i oedd yr asgwrn cefn... hogia'r werin... Dyna pam ges i'r job... Pwy gafodd y job?</p> <p>Hen Wraig: Be?</p> <p>Hen Wŵr: Pwy gafodd y blydi job? ... Dwi'n gofyn i ti... pwy cafodd hi?</p> <p>Hen Wraig: Chdi, pwy arall...?</p> <p>Hen Wŵr: Siŵr Dduw ma' fi cafodd hi!...</p>
Mae'r Hen Wraig yn dweud celwydd wrth yr Hen Wŵr – y byddan nhw'n mynd ar wyliau, er ei bod yn gwybod yn iawn nad oes gwella iddo.	<p>Hen Wŵr: ...Ti'n meddwl y bydda i ddigon da i fynd i rwla felly'r ha nesa 'ma?</p> <p>Hen Wraig: Wrth gwrs y byddi di... mi gawn ni holides gwerth chweil... Ar fy llw.</p>

### Materoliaeth/Statws

#### Act I

Mae'r Ferch am i'r Llanc dyfu mwstâsh.	<p>Merch: Pam na dyfi di fwstâsh?... Dwi'n licio dynion hefo mwstâsh... Ac nid rhyw fwstâsh bach cachu iâr cofia... ond un mawr clyfar fel Zapata... un rhywiol yn cyrlio i lawr dat dy ên di... Ma' dynion hefo mwstâsh yn 'y ngyrru fi i grynu i gyd!</p>
Dyrchafiad yn y gwaith – mae'r Llanc yn ymfalchïo ei fod yn electrision digon profiadol i hyfforddi prentis.	<p>Llanc: Yli, dwi wedi deud wrthat ti bod rhaid i mi weithio'n hwyr... nid hogyn dwi rŵan, dallt... ma' gin i brentis i drenio.</p>
Prynu beic modur sy'n bwysig i'r Llanc yn yr act gyntaf.	<p>Llanc: Ma' gin i flys prynu moto beic – cythral o un mawr clyfar... Suzuki pum cant... uffar o sleifar o un – newydd sbon danlli grai!</p>
Mae'r Llanc yn poeni beth fydd ymateb ei fam i'r newyddion bod y Ferch yn feichiog.	<p>Llanc: Mi blydi lladdith Mam fi. A mi all fod yn ddigon i'r hen ddyn. Mi fydd yn ddiwadd byd nacw... mi fydd 'na uffar o le yn tŷ ni.</p>

#### Act II

Mae'r Gŵr yn anaeddfed; mae'n rhoi pwyslais mawr ar ei statws mewn bywyd, a'r cyfan sydd arno ei eisiau yw dyrchafiad yn y gwaith.	<p>Gŵr: Fedar o ddim rhoi'r job i neb arall... Fedar o ddim... 'Dio byth yn gwahodd Preis yna i swpar nacdi... i drafod petha...</p>
--	--

Yr unig beth sy'n bwysig i'r Gŵr yw plesio D.J.	Gŵr: Ges i o heno dwi'n meddwl ... Saff i ti ... dim bariars ... o'dd o'n deud petha ... ti'n gwbod ... preifat felly ... personol.
Dyrchafiad yn y gwaith oedd yr unig beth ar feddwl y Gŵr.	Gŵr: Ond ma D.J. yn hoffi rhywun hefo drive dallt – hoffi siarad plaen ... heb flewyn ar dafod ... Fedar o ddim rhoi'r job i neb arall ... Fedar o ddim!
Mae ymuno gyda'r Seiri Rhyddion yn bwysig i'r Gŵr – D.J. oedd yr un a allai roi mynediad iddo.	Gŵr: 'Dio byth yn gwahodd Preis yna i swpar nacdi ... i drafod petha ... Gwraig: 'Sdim rhaid iddo fo ... ma' nhw'n gweld digon ar ei gilydd yn y Lodge. Gŵr: Mi fydda i'n aelod cyn diwadd flwyddyn hefyd ... Ma' f'enw i fyny dallt ... a D.J. 'i hun roth o ... ac os ydi D.J. tu ôl i mi, dwi fewn.

## Cariad

### Act I

Mae'n amlwg bod y Ferch yn caru'r Llanc yn yr act gyntaf.	Merch: Allwn i ddim diodda meddwl bod rhywun arall yn dy gael di.
Mae'r Llanc yn ei charu fel y mae ac nid yw'n meddwl y dylai hi golli pwysau.	Llanc: Paid â cholli dim... Ma' isio lle i afael... 'sa gas gin i fynd i gwely hefo ffrâm beic.
Ni all y Ferch wynebu dringo'r grisiau heb gwmni'r Llanc.	Merch: Allwn i byth fynd hebddot ti... dwi'n siŵr o hynny.
Ar ddiwedd yr act gyntaf, mae'r Ferch yn cydnabod na all hi garu neb arall.	Merch: Elli did dim cymryd 'y ngair i...? ... fuo 'na neb ar d'ôl di... Do'n i ddim isio neb ar ôl dy gael di.
Wrth iddyn nhw ddringo'r grisiau ar ddiwedd yr act gyntaf, maen nhw'n dringo law yn llaw, sy'n symbol o'u cariad.	<i>Wedi iddo gyrraedd y ferch, maent yn cydio dwylo ac yn cerdded law yn llaw yn araf i fyny'r grisiau.</i>

### Act II

Wrth hel atgofion am eu hieuenctid, mae'n amlwg eu bod wedi caru ei gilydd. Yn union wedi hyn mae'r Wraig yn gofyn i'w Gŵr ei chofleidio.	Gwraig: Gafael yno i.
	Gŵr: Beth?
	Gwraig: Gwasga fi... gwasga fi'n dynn.

**Act III**

Cariad yr Hen Wŵr at yr Hen Wraig yn amlwg ar ôl iddi dorri'r jwg Ilaeth	Hen Wŵr: Be ydi'r ots? 'Di ddim yn ddiwadd byd... 'Sdim rhaid cynhyrfu... hen jwg... fawr o werth i neb... Yli... Ista'n fama.
Cariad yr Hen Wraig yn amlwg wrth iddi ofalu am yr Hen Wŵr – yn gwneud popeth o fewn ei gallu i'w helpu	Hen Wŵr: Ei di ddim yn bell na nei? Hen Wraig: A'i ddim cam o 'ma. Hen Wŵr: Ti'n gaddo? Hen Wraig: Dwi'n gaddo.

## 7. Symboliaeth

### Y tŵr / grisiau

Gellir dadlau bod yr holl ddrama yn troi o gwmpas perthynas y ddau gymeriad â'r grisiau. Y grisiau, yn sicr, yw canolbwynt y llwyfan a phrin yw'r golygfeydd yn y ddrama nad oes cyfeiriad atynt. Er mai strwythur digon di-liw ydyn nhw, maen nhw'n mynnu ein sylw drwy'r amser. Diddorol yw sylwi fod y grisiau yn troelli – nid yw bywyd yn hawdd, ac anodd yw teithio o gyfnod plentyndod i ddyddiau henaint. Hefyd, mae'n amhosib gweld i ble mae rhywun yn mynd. Mae'r tŵr ei hun yn symbol o fywyd dyn, ac o daith bywyd y Gŵr a'r Wraig. Cynrychiola'r ystafelloedd lefelau gwahanol bywyd – ieuencid, canol oed a henaint – a'r grisiau eu hunain yn cyfleu'r symud o un cyfnod i'r llall. Ymddengys llawer o helbulon bywydau bob dydd y ddau gymeriad yn ddibwys i ni, ond wrth wynebu marwolaeth ar ddiwedd y ddrama sylweddola'r ddau gymeriad, a ninnau'r gynulleidfa, mai dibwys yw holl helbulon bywyd o'u cymharu â marwolaeth.

Yn y tŵr, ceir tair ystafell sy'n cynrychioli tri chyfnod ym mywyd person. Mae grisiau yn arwain i mewn i'r ystafell gyntaf o'r ystafell islaw sy'n cynrychioli plentyndod. Ar y dechrau y Ferch sy'n arwain, yn awyddus i ddringo ac yn ysu am gael profiad rhywiol – mae arni hi eisau tyfu i fyny o fod yn ferch i fod yn fenyw. Ar y diwedd yr Hen Ŵr sy'n dringo gyntaf at ei farwolaeth, gan adlewyrchu patrwm arferol bywyd.

Ni ellir osgoi'r tŵr yn y ddrama – mae'n destun her ac ofn i'r ddau gymeriad ac i'r gynulleidfa gan nad ydyn ni'n gwybod beth sydd ar ben y grisiau olaf. Wrth i'r Hen Ŵr godi o'i wely yn llanc ifanc yn rhedeg i fyny'r grisiau olaf, gwelwn y Cristion yn Gwenlyn Parry a gredai yn bendant fod byd y tu hwnt i'r bedd.

I ble mae'r grisiau olaf yn arwain? A oes bywyd ar ôl marwolaeth? A oes ystafell uwchben y tŵr? A oes nefoedd? Ydy'r daith yn dechrau eto? A oes bywyd arall? Ni cheir ateb pendant i'r cwestiynau hyn gan Gwenlyn Parry; codi cwestiwn a wna. Nid oedd ofn arno i ddatgan ei gred Gristnogol yn gyhoeddus ac mae ei ddramâu eraill, *Saer Doliau*, *Tŷ ar y Tŷwod* ac *Y Ffin* hefyd yn cyfleu ei ffydd Gristnogol.

'Os oes neges yn fy nramâu – y neges honno fydd yr un a wêl y gwyliwr.' (Gwenlyn Parry)

### Y tymhorau / golau llwyfan

Mae'r golau yn hanfodol er mwyn deall y gwahanol gyfnodau ym mywydau'r ddau. Gellid dadlau mai'r gwanwyn a gynrychiolir ar ddechrau'r act gyntaf oherwydd clywir lleisiau plant yn y cefndir. Mae'r golau'n wyrdd ac felly yn cyfleu naws ffres ieuencid.

Erbyn yr ail act, pan godir y llen, mae'r ddau gymeriad wedi symud i'r llawr nesaf yn y tŵr ac yn ganol oed. Mae'r golau'n felyn, i ddangos eu bod wedi aeddfedu ac i gyfleu diwedd haf – 'Ma' popeth yn marw y tymor yma... gas gin i'r hydref' (Gwraig, tud. 54). Ond nid yw'r Gŵr yn gweld anobaith diwedd haf – 'Dim popath... ma' ffrwythau toes... cnau, mwyar duon a ballu... amser i fedi ydi o.' (Gŵr, tud. 54). Er hyn, nid oes gobaith iddynt yn ôl y Wraig – 'Fydd y dail ddim yn hir cyn pydru... a'r mwyar duon yn slwtsh!' Mae hyn hefyd yn symboleiddio cyflwr eu perthynas erbyn yr ail act.

Diwedd tymor yr hydref a dechrau'r gaeaf a gynrychiolir gan liw oren/machlud y golau yn yr act olaf, sy'n cyfleu cyfnod o henaint pan ddechreu'r corff a'r meddwl grebachu. Mae'r ddau yn wynebu marwolaeth, fel y mae natur yn wynebu marwolaeth yn y gaeaf. 'Ma' ias eira ynddi... synnwn i ddim na fydd 'na gnwd cyn bora' (Hen Wraig, tud. 79). Nid oes sôn am wanwyn yn dilyn y gaeaf o gwbl yn y ddrama, sy'n awgrymu terfyndoleb marwolaeth.

Eto i gyd, mae'r ddelwedd o'r Llanc ym mlodau ei ddyddiau ar y diwedd yn awgrymu aileni.

### Y trên

Mae sŵn y trên yn ddolen gyswllt yn y ddrama – ac fe'i clywir ar sawl achlysur. Mae'r cyfeiriadau at y trên yn digwydd wrth i'r ddau gymeriad agosáu at gyfnod newydd yn eu bywydau. Mae rhyw ddatblygiad amlwg yn digwydd naill ai'n syth o flaen y cyfeiriadau neu yn syth ar eu hôl.

Yn yr act gyntaf, cyfeiriad byr yn unig a geir ato, sy'n adlewyrchu cyffro ieuenctid efallai – symbol o bosibiliadau ac antur yw swm trên yn y nos:

'Ma' rwbath neis mewn sŵn trên yn bell yn y nos!' (Merch, tud. 28)

Yn yr ail act nid yw'r Wraig mor hoff o sŵn y trên ag yr oedd hi y tro cyntaf y clywodd hi ef. Mae tinc o ofn yn ei llais y tro hwn:

'Ma' rwbath trist mewn sŵn trên – 'mhell yn y nos... Ffarwelio... dagra... mynd i rwla – gadal!' (Gwraig, tud. 55)

Iddi hi, mae sŵn trên yn gyfystyr â ffarwelio a thristwch. Cyfeiriad sydd yma at fywyd fel un daith hir sy'n symud o orsaf i orsaf – neu o ieuenctid i ganol oed i henaint, ac yna i'r orsaf olaf, sef marwolaeth. Wrth gyrraedd canol oed, mae bywyd ac aeddfedu wedi newid agwedd y wraig. Mae hi'n ymwybodol nawr bod profiadau bywyd yn chwerw-felys. Mae colledion a ffarwelio wedi dod i'w rhan.

'Trên!' Cyfeirir at y trên am y tro olaf yn y llinell glo yn y drydedd act. Wrth i'r Hen Wraig syllu'n herfeiddiol i gyfeiriad y gynulleidfa, clywir sŵn trên yn y pellter, yn rhuthro trwy'r tywyllwch i rywle. Mae hwn yn ddiweddglo clyfar, oherwydd wrth i'r Hen Wraig wenu'n dawel pan glyw hi'r trên yn rhuthro yn y pellter, cawn awgrym ei bod hi neu ei gŵr, neu efallai'r ddau ohonynt, yn agosáu at yr orsaf olaf ar daith bywyd – marwolaeth.

Cynrychiola'r trên fywyd yn mynd heibio, colled a hiraeth.

### Croesi cae

Yn union fel cerdd Gwyn Thomas, 'Croesi Traeth', cynrychiola'r symbol o groesi cae gyflymder bywyd. Yn yr ail act, wrth edrych yn ôl ar fywyd Gwyn, y mab, mae'r Wraig yn myfyrio:

'Mi a'th y cyfan mor sydyn... croesi cae... Dringo grisia... 'Dio ddim yn dy ddychryn di weithia?' (tud. 61)

Yn y drydedd act, ar ôl i'r Hen Wraig roi pigiad i leddfuo poen yr Hen Wŵr dywed hi:

'Croesi cae... dringo grisia... y cwblw mor sydyn... llithro rhwng bysedd rhywun... a'r cwblw... er mwyn hyn.' (tud. 107)

Unwaith eto, tynnu sylw at gyflymder bywyd sydd yma ac atgyfnerthir hyn gan gwpled o waith Goronwy Owen a ddyfynnir ar ddechrau'r ddrama:

'Hafal blodeuyn hefyd  
I'n hoen fer yn hyn o fyd.'

## 8. Cymeriadau

### Merch

Cymeriad hapus, llawn brwdfrydedd yw'r Ferch ar ddechrau'r ddrama. Mae hi wrth ei bodd, yn union fel petai hi wedi dod o hyd i rywle y bu'n chwilio amdano ers tipyn o amser. Neidia o gwmpas yr ystafell yn frwdfrydig ac mae hi'n gwbl gadarnhaol; nid oes meddyliau negyddol ganddi o gwbl. Mae'n barod am yr hyn sydd yn ei hwynebu ac yn barod i fyw ei bywyd presennol i'r eithaf: 'Gad i ni fwynhau fama i ddechra...' (tud. 17). Mae hi'n amlwg yn benderfynol o fwynhau.

Hi sy'n rheoli'r berthynas rhwng y ddau. Mae'r Ferch yn ymddangos yn hyderus yn yr act gyntaf – hi sydd yn arwain y Llanc i fyny o'r llawr gwaelod; hi yw'r un sydd yn awyddus i ddringo a chael profiad rhywiol; ac mae hi'n ysu am gael bod yn wraig a dynes. Yn wir, mae hi am gau'r drws ar ei phlentyndod. Pan glywir sŵn plant yn chwarae yn yr ystafell islaw mae hi'n cau'r drws yn glep.

Fodd bynnag, er yr holl hyder, gwelwn ochr arall iddi pan mae'n cyfaddef ei bod yn ofnus yn y storm. Mae ei geiriau'n dawelach ac yn llawer mwy addfwyn ac erbyn hyn mae'n fodlon mwynhau cael ei gwarchod gan y Llanc: 'Dwi'n teimlo'n saff hefo ti.' Cyfaddefa nad yw marwolaeth yn ei phoeni – yr hyn sy'n ei gofidio, yw sut y bydd hi farw. Yn ei barn hi, mae'n rhaid mwynhau'r presennol a derbyn y dyfodol pan ddaw.

Gwelir hefyd yn ystod yr act gyntaf ddiffyg ffydd yn ei pherthynas â'r Llanc, sy'n cyfleu'r tensiwn rhyngddynt ac yn profi nad yw eu perthynas yn un aeddfed. Mae hi'n llawn cenfigen, yn arbennig pan gyhudda'r Llanc o gael perthynas â Sali Prichard, ond yn toddi pan mae mae ef yn rhoi ei air nad oes ganddo ddiddordeb mewn unrhyw un arall ond hi.

Erbyn diwedd yr act mae'r cymeriad hyderus yn chwilio am ganmoliaeth a gwerthfawrogiad – 'Ti'n meddwl 'mod i rhy dew?' – sy'n arwain at ymgais y Llanc i'w charu hi. Er ei bod yn ei wrthod i ddechrau, mae'n ildio ac yn ymateb iddo mewn ffordd brofiadol.

Mae ei sylw ar y grisiau yn aml yn ystod yr act gyntaf, ond eto, mae hi'n ofni'r ystafell ar y llawr nesaf ('oruwch ystafell'). Gofynna gwestiynau mawr Gwenlyn Parry yn y ddrama – 'Pam 'dan ni yma?' ac 'O ble duthon ni i fan hyn?'.

Mae hi bellach yn fwy awyddus na'r Llanc i ddringo'r grisiau, ac yn rhoi ambell gynnyg ar adael hebdo er ei fod e yn ei darbwylllo i aros. Ond, am ei bod yn feichiog, mae hi yn sylweddoli nad oes dewis iddyn nhw ond symud ymlaen. Gwelir ei haeddfedrwydd yma, yn wynebu ei phroblem yn gadarn, ac yn benderfynol o gadw'r plentyn heb wrando ar awgrymiadau'r Llanc i gael erthyliad. 'Blydi llofrudd' yw ei disgrifiad hi ohono.

Sylweddolwn fod y Ferch wedi dod oddi ar y bilsen oherwydd ei gofid am beryglon iechyd, ond ni thrafododd hyn gyda'r Llanc cyn cymryd y cam tyngedfennol. Ar yr un llaw, dengys hyn anaeddfedrwydd ar ei rhan a diffyg cyfathrebu yn eu perthynas; ar y llaw arall, mae'n arddangos ei hysbryd annibynnol. Ond cerdded law yn llaw i'r llawr nesaf wna'r Llanc a'r Ferch ar ddiwedd yr act gyntaf er gwaethaf popeth.



## Llanc

Mae'r Llanc yn wahanol iawn i'r Ferch. Gadawodd ei ffrindiau yn yr ystafell islaw, ac nid yw'n siŵr a ddylai fod ar y llawr hwn o gwbl. Mae'n anaeddfed iawn, ac yn fuan gwelwn y byddai'n well ganddo ddringo'r grisiau i gyfnod canol oed, gan osgoi'r cyfnod o arbrofi gyda phrofiadau rhywiol yn gyfan gwbl.

Ar ddechrau'r ddrama mae'r Llanc yn gymeriad pryderus dros ben. Y Ferch yw'r arweinydd – hi sy'n fodlon mentro. Mae ef yn amheus o'r cyfan sydd o'i gwmpas. Nid oes ganddo'r un hyder â'r Ferch ac mae'n ofni'r cyfnod newydd hwn yn ei fywyd. Mae'n cwestiynu popeth ac yn cyfaddef, 'Dwi ddim yn licio'r lle 'ma o gwbl.' Wrth i'r Ferch geisio ei hudo i garu, mae'n well ganddo rythu'n fyfyrion ar y grisiau. Mae'n poeni'n barhaol am ei fam, a gwelir ei dylanwad arno. Mae'r Ferch yn dweud nad yw'n gallu caru oherwydd hyn, ac mae'n ei wawdio trwy ei annog i fynd adre i gysgu gyda'i fam: 'Dos adra i gysgu hefo hi 'ta.' Nid yw'n hoffi hyn o gwbl ac mae'n taro'r Ferch ar draws ei boch. Mae tensiwn a herio yn arwain y ddau at yr olygfa dreisiol ar dudalen 18, ac nid dyma'r tro olaf i ni weld golygfa fel hon yn y ddrama. Y mae gan y Llanc dymer nad yw'n gallu ei rheoli pan mae'n cael ei yrru i gornel.

Fodd bynnag, gwelir ochr wahanol iawn i gymeriad y Llanc pan mae'r storm yn agosáu. Y mae erbyn hyn yn dyner ac yn addfwyn tuag at y Ferch. Ef yw'r arweinydd bellach wrth iddo geisio'i darbwyllio nad oes perygl iddi, ac mae ei agwedd yn gariadus – 'Yli, tyd fan hyn i ista... 'dan ni'n berffaith saff.'

Wedi i'r Ferch awgrymu y dylai dyfu mwstásh, gwelir y Llanc yn datblygu llawer mwy o hyder ac yn aeddfedu o ran golwg mewn ychydig eiliadau. Ond gwelir ei dymer yn dychwelyd wrth i'r Ferch ei gyhuddo o gael perthynas gyda'r ferch wrth y til yn y gwaith. Llwydda i gadw ei dymer dan reolaeth y tro hwn, gan gyfaddef bod ar Sali Pritchard eisiau cael perthynas gydag ef.

Erbyn hyn, y Llanc sydd eisiau mwynhau'r cyfnod ac wrth iddo roi ei law o dan wisg y Ferch, hi sy'n gwrthod y symudiad y tro hwn. Mae'r Ferch yn barod i ddringo'r grisiau, ond mae ef yn ddigon bodlon ei fyd, 'Diawl, dwi'n dechrau mwynhau fy hun.' Ef sy'n awgrymu caru ei gilydd nawr a gwelwn ei fod yn berson penderfynol iawn.

Gwelir ansicrwydd yn ei gymeriad wrth iddo ddechrau amau bod y Ferch wedi cael llawer o brofiadau rhywiol. Mae'r ddau'n holi ei gilydd ynglŷn â'u profiadau rhywiol yn y gorffennol, a gwelir diffyg ffydd yn y berthynas eto. Poena ei bod hi wedi caru rhywun arall o'i flaen ef, sydd o bosibl yn tanseilio ei ego.

Dengys ei awydd i brynu beic modur ei fod yn llawn o gyffro diofal ieuentid, a gwelir ar yr un pryd ei anaeddfedrwydd yn ei ymateb i'r newyddion ei bod yn disgwyl babi. 'Mi blydi lladdith Mam fi' yw ei gonsŷrn. Yn hollol hunanol, nid yw'n poeni am y Ferch o gwbl ac awgryma y dylai gael erthyliad. Unwaith eto, mae ei agwedd hunanol yn amlwg wrth iddo awgrymu nad ef yw'r tad, ac mae'n amharod i dderbyn cyfrifoldeb. Ond cerdded i fyny'r grisiau gyda'i gilydd wna'r ddau ar ddiwedd yr act gyntaf. Er bod y Llanc ychydig yn betrusgar, mae'n 'meddwl y byd' o'r Ferch ac am ei dilyn.

Yn ystod act I, gwelir y Llanc yn tyfu'n raddol trwy ei anaeddfedrwydd cychwynnol, i'w fwynhad o ryddid profiad o fod yn ifanc, i'r sylweddoliad ei fod yn gorfod wynebu cyfrifoldeb.

**Ystyriwch:**

1. Pam mae'r Ferch a'r Llanc wedi dod i'r ystafell yma?
2. Pam na chaiff y plant eraill ddod i fyny i'r ystafell?
3. Pam mae'r Llanc yn teimlo y byddent yn fwy diogel ar y llawr nesaf?
4. Pam mae'r Ferch yn dweud nad ydynt yn barod i symud i'r llawr nesaf?
5. Pam mae'r Llanc yn gwisgo'r mwstásh a'r siaced?
6. Pam mae'r Llanc yn dweud 'Heia!' wrth y Ferch ar ôl iddo wisgo'r mwstásh?
7. Cymharwch agwedd y Ferch at y Llanc ar dudalennau 24 a 25.
8. Pam nad ydynt yn gallu mynd i lawr eto?
9. Pam mae'r Llanc mor ofnus pan mae'r Ferch yn bygwth mynd i'r llawr nesaf?
10. Pam mae'r Ferch mor awyddus i ddringo i'r llawr nesaf?
11. Pam na allan nhw aros ble maen nhw?
12. Pam mae'r Llanc yn sôn cymaint am ei fam?
13. Pam mae'r Llanc yn amau ai fe yw'r tad? Pam mae'n crio ar ôl amau?

**Tasg:** Chwiliwch am enghreifftiau yn yr act gyntaf o'r nodweddion yma yng nghymeriad y Ferch a'r Llanc:

Merch	Llanc
Bywiog	Amheus
Hyderus	Dan fawd ei fam
Cryf	Tymer
Pryderus	Hunan dwyllodrus
Diffyg ffydd	Hyderus
Amheus	Aeddfed
Cenfigennus	Diffyg ffydd
Ansicr	Anaeddfed
Hunanol	Breuddwydiol
	Ansicr

## Y Wraig

Gwraig aeddfed ganol oed sydd wedi magu pwysau yw'r wraig yn yr ail act a gwelir hi yn dioddef ymddygiad gwarthus ei Gŵr ar ddechrau'r olygfa. Daw'n glir fod y Wraig wedi syrffedu a'i bod yn difaru yr hyn sydd wedi digwydd yn ei bywyd. Dirywiodd ei hiaith yn ddifrifol a gwelwn nad oes ganddi lawer o barch at ei gŵr. Gwelwn yn syth fod y Wraig yn gallu gweld bod y Gŵr yn ei dwyllo'i hun ynglŷn â'i ddyfodol yn y gwaith.

Mae hi'n llawer mwy pwylllog na'i Gŵr wrth ystyried y dyfodol: 'Mae'n rhaid i ni gymryd mwy o bwyll tro ma... nid rhuthro fel o'r blaen' yw ei chyngor.

Cyhudda'r Gŵr y Wraig o fod yn rhy gyfeillgar gyda D.J., ei bennaeth yn y gwaith. Nid yw hi'n gwadu'r cyfeillgarwch, ond mae hi'n gofyn iddo pam na ddywedodd rywbeth ynglŷn â'r sefyllfa wrth D.J. yn ystod y cinio. Mae hi fel petai'n gwatwar ei gŵr neu'n cyfleu ei dyhead iddo ddangos asgwrn cefn drosti, efallai.

Daw ofn dros y Wraig wrth glywed trê'n yn mynd heibio yn y pellter: 'Ma' rwbath trist mewn sŵn trê'n – 'mhell yn y nos'. Mae nodyn lleddf yn llais y Wraig yn yr act hon, mewn manau, yn adlewyrchiad o aeddfedrydd profiad efallai, neu o siom.

Ceir golygfa lle maent yn hel atgofion am ddyddiau caru'r gorffennol. Mae'r Wraig yn hapus ym mreichiau ei Gŵr ac yn mwynhau'r sylw a gaiff hi ganddo. Mae'r holl chwerthin a glywn yn cadarnhau hyn. Wrth iddi edrych yn ôl ar ei hieuenctid, sylweddola pa mor gyflym yw taith bywyd: 'Mi a'th y cyfan mor sydyn ... croesi cae ... (saib hir) Dringo grisiau... (saib)...'dio ddim yn dy ddychryn di weithia?' Gwelir ofnau'r Wraig ynglŷn â heneiddio, sy'n cefnogi'r ddelwedd gyntaf a gawn ohoni ar ddechrau'r ail act o rywun yn difaru bod yn ei sefyllfa bresennol.

Unwaith eto, gwelwn fod elfennau o ddiffyg cyfathrebu yn eu perthynas – mae'r Gŵr a'r Wraig yn aml yn rhy benstiff i drafod â'i gilydd. Nid oes ganddi lawer o amynedd gyda'i Gŵr – gwelwn ei diffyg goddefgarwch tuag ato'n gyson yn yr ail act. Ar y cyfan, cawn ddarlun cryf ohoni – hi sy'n dueddol o reoli pob sefyllfa ac sy'n gwneud penderfyniadau. Gwelir ei phendantwydd ynglŷn â mynd ar wahân i fyny'r grisiau – nid yw'n ildio o gwbl. Gwelir elfen ddiamynedd yng nghymeriad y Wraig yma hefyd – hi sy'n ennill arian bellach ac nid oes ganddi amynedd gydag agwedd negyddol, hunandosturiol ei Gŵr. Mae hi'n gallu gweld nad yw ei ddyfodol yn un llewyrchus iawn.

Er ei bod yn gryfach cymeriad, nid yw'r Wraig yn ddigon cryf i'w adael, er ei bod wedi bygwth sawl tro, 'Dwi'n mynd.' Ar ddiwedd yr olygfa gwelir y Wraig yn ochneidio'n wylofus ar lawr wedi i'w Gŵr ymosod arni. Eto i gyd, pan ddringa'r Gŵr y grisiau, dilyna'i Wraig ef yn wan oherwydd ar waethaf ei holl wendidau a dadrith bywyd canol-oed, 'dyw hi 'ddim isio neb arall.'

## Y Gŵr

Dyn sydd wedi colli pob elfen o hunan-barch a welir ar ddechrau'r ail act. Mae wedi magu pwysau ac wedi meddwi – fel dywed y Wraig, 'Sglyfath!' Does ganddo ddim parch at ei Wraig ac mae eu perthynas wedi dirywio'n sylweddol – gwelir ef yn rhegi ac yn torri gwynt, ac mae'n amlwg ei fod wedi gwneud ffŵl ohono'i hun yng nghartref ei fos, D.J. Felly o'r cychwyn cyntaf gwelwn nad oes ganddo barch at eraill nag ato'i hunan.

Drwy gydol yr ail act gwelir unwaith eto y modd y mae'r Gŵr yn ei dwyllo'i hun ynglŷn â'i ddyfodol ac ynglŷn â'i waith. Ei waith sy'n rheoli popeth bellach – ei berthynas â'i wraig, ei fywyd, ei feddwl. Mae'n ei chael yn anodd cyfathrebu â'i wraig ar unrhyw lefel – ar lafar nac yn gorfforol.

Dyrchafiad yn y gwaith yw'r unig beth sy'n ei boeni. Mae'n amlwg yn berson uchelgeisiol ac mae'n fodlon dilyn unrhyw lwybr, gan gynnwys ymuno â'r Seiri Rhyddion, i gyrraedd y brig. Mae o'r farn nad yw'r Wraig yn credu ei fod yn ddigon da ar gyfer y swydd. Rhwng ei emosiwn a dylanwad y ddiod feddwol mae'r Gŵr mewn tipyn o stad. Mae'r berthynas rhyngddo a'i wraig yn eithaf stormus bellach ac mae'n cydnabod hyn gan fentro gofyn, wrth syllu i fyny'r grisiau: 'Fasan ni'n cael run draffarth i fyny yna tybed?'

Yna'n sydyn, newidia ei agwedd – mae'n siarad yn rhamantus, fel plentyn bach, am y gorffennol. Ond, pan sonia'r Wraig am ymweliad posibl Gwyn, a'r hapusrwydd a fyddai'n dod yn sgil hynny, mae'r Gŵr yn ei hanwybyddu ac yn sôn am yr holl waith pwysig sydd ganddo i'w gyflawni. Fodd bynnag, pan ddechreu'r Wraig ddringo'r grisiau hebdo, mae'n cynhyrfu: 'Well i mi fynd gyntaf' yw ei gyngor. Gellir dadlau bod hyn yn adlewyrchu yr agwedd siofenistaidd mai'r dyn sydd i fod i reoli, i arwain ac i ofalu am ei deulu.

Ceir ychydig o wrthdaro wedyn – mae ar y Gŵr eisiau dringo'r grisiau ond mae'r Wraig wedi newid ei meddwl ac yn anfodlon. Dywed hi wrtho y dylai fynd ar ei ben ei hun, ac mae ei ymateb yntau yn awgrymu bod yna gwlwm o gariad neu hen arfer yn eu perthynas o hyd: 'Da ni wedi mynd hefo'n gilydd bob tro.' Pan nad yw'r Wraig yn ei ddilyn, mae'n petruso ar y grisiau ac mae tinc wylofus yn ei lais. Eistedda ar y grisiau, yn methu mynd ymhellach. Mae wedi ildio i'w wraig ac wedi ei lwyr ddarostwng. Darlun o fethiant sydd yma, darlun o ddibyniaeth y Gŵr ar ei Wraig ac o ddyn sy'n ddibynnol ar greu straeon sy'n cyfianwhau ei fethiannau iddo'i hun.

Gwelir gwrthgyferbyniad i'r darn o ffilm yn dangos dyddiau caru, pan mae'r Gŵr yn ymddangos yn sur a blin. Mae wedi colli ei swydd – nid oedd yn gwisgo'r 'dei iawn', gan nad yw'n aelod o'r Seiri Rhyddion, ac nid oedd yn llyfu tin fel 'y ponsan Preis 'na.' Mae'n amlwg ei fod yn ystyried ei hun yn berson eithaf cydwybodol. Mae'n rhoi'r argraff ei fod yn ddyn a lynodd at ei egwyddorion ac o'r herwydd fe gollodd ei swydd. Ond hunandwyll y Gŵr yw hyn. Ef sydd yn ceisio cyfiawnhau iddo'i hun amgylchiadau colli'i swydd. Roedd e'n fodlon puteinio'i wraig er mwyn dyrchafiad ac nid oedd ganddo egwyddorion.

Ceir golygfa llawn tensiwn i gloi'r ail act – lle mae'r Gŵr yn cyhuddo'r Wraig o gael perthynas â D.J. Mae'n ei tharo ac mae'n gofyn: 'Dw i'n dda i ddim nacdw?' Mae ei sefyllfa'n drist – nid yw'n gallu wynebu ffeithiau bywyd ac mae'n ceisio osgoi wynebu'r problemau ynglŷn â'i waith drwy ddringo'r grisiau a chuddio yng nghyfnod nesaf ei fywyd.

Gwelir datblygiad clir yn ei agwedd a'i bersonoliaeth o'r act gyntaf – yma gwelir ei anallu i gyfathrebu, ei ddiffyg hunan-barch a'i amharoddrwydd i wynebu ffeithiau. Nid yw wedi dysgu unrhyw beth hyd yn hyn ynglŷn â phroblemau bywyd. Ar ddiwedd yr ail act, pan mae'n dringo'r grisiau'n araf ac yn dawel i wynebu cyfnod henoed, yr un hen ŵr anaeddfed sy'n cyrraedd y llawr olaf.

### Ystyriwch:

1. Sut mae'r Wraig yn teimlo pan mae'n cyrraedd yr ail ystafell?
2. Sut fyddech chi'n disgrifio'r ffordd mae'r berthynas rhwng y Gŵr a'r Wraig yn datblygu?
3. Sut mae'r cymeriadau'n ymateb i'r sŵn a ddaw o'r llawr nesaf?
4. Pam nad oedd y Gŵr wedi taflu'r bwyd i wyneb D.J.?

5. Ym mha ffyrdd y mae'r tyndra rhwng y Gŵr a'r Wraig yn cael ei gyfleu?
6. Pa debygrwydd a pha wahaniaethau sydd yng nghymeriadau'r Gŵr a'r Wraig?
7. Sut mae'r ail act yn cyflwyno thema twyll a rhagrith?
8. Beth yw'r rôl a chwaraeir gan Gwyn yn yr act hon?

**Tasg:** Chwiliwch am enghreifftiau yn yr ail act o'r nodweddion yma yng nghymeriad y Wraig a'r Gŵr:

Gwraig	Gŵr
Diffyg parch at ei gŵr	Hunanol
Diffyg hunan-barch	Rhagrithiol
Diffyg amynedd	Ymddangos fel ffŵl
Cymeriad caled, dideimlad	Am greu argraff
Ofni heneiddio	Heneiddio cyn y Wraig
Difaru'r gorffennol	Hunandosturiol
Trist	
Anallu i gyfathrebu	Cymeriad gwan
Cryfach na'r Gŵr	

### Yr Hen Wraig

Hen wraig fach benwyn yw'r cymeriad ar ddechrau'r act olaf, â golwg 'drist a myfyrgar' arni. Fel ei gŵr, nid yw hithau chwaith yn deall arwyddocâd y grisiau. Mae'n gweld yn syth nad yw pethau'n newid o ddringo'n uwch a thra bod yr Hen Wraig yn synhwyro bod pethau'n wahanol, gweld yr un hen bethau cyfarwydd mae'r Hen Wraig: 'Fama? Fancw? Be 'di'r gwahaniaeth?' Deallwn oddi wrth ei geiriau nad yw hi a'i merch yng nghyfraith yn cyd-weld a gwelwn hi eto yn dotio ar ei mab a'i hwyrion, gan ymgolli mewn atgofion am eu plentyndod. Mae'n ddilornus o'i merch yng nghyfraith ac yn ei gwatwar gan gymharu ei hunan gyda hi. Mae hi'n lleisio ei rôl fel mam yma.

Mae'r Hen Wraig wedi dechrau ffwdro, ond mae cof yr Hen Wraig yn ddigon effro – hi sy'n cofio enwau, er enghraifft. Mae'n gymeriad digon hyderus, ond chwelir yr hyder hwnnw pan syrthia'r jwg llaeth o'i dwylo. Mae ei chorff yn dangos arwyddion henaint wrth iddi fethu rheoli ei symudiadau. Caiff y digwyddiad hwn effaith seicolegol fawr arni a gwel ei hun yn 'crino... cracio' o flaen ei gŵr gan sylweddoli bellach fod y grisiau ar ei chyfer hi. Mae'n freuddwydiol ei natur erbyn hyn – 'Y cyfan wedi mynd mor sydyn' – ac yn edrych yn ôl gyda thristwch at ieuenctid diflanedig. Mae arni ofn marw'n araf a phoenus ac mae'n ymbil ar ei gŵr i beidio â'i thwylo am realiti ei marwolaeth pan ddaw. Mae'n crefu am onestrwydd.

Mae'n cynorthwyo'r Hen Wraig i gladdu'r grisiau o dan addurniadau Nadolig. Er ei bod braidd yn ofnus i ddechrau, mae'n magu digon o hyder i chwerthin yn uchel erbyn diwedd yr olygfa. Er yr hwyl yma, fodd bynnag, gwelir ei diffyg amynedd yn dod i'r brig yn gyson ac mae'n colli ei thymor yn rheolaidd gyda'r Hen Wraig. Nid yw'n gallu wynebu ffeithiau'r gorffennol – rhamantu bellach yw ei hunig ffordd o ddelio â'r sefyllfa.

Pan gaiff yr Hen Wŵr ei daro'n wael ar y grisiau, rhuthra ato i'w helpu ac i geisio ei dynnu i lawr oddi yno. Mae'n ei nyrso gyda gofal mawr wedyn. Ceisia ei gysuro eu bod nhw wedi cyrraedd 'yr ystafell olaf' gyda'i gilydd. 'A taswn i'n cael cychwyn eto... reit yn y gwaelod 'na ... newidiwn i 'run chwinciad.' Ond unwaith eto, gwelwn pa mor anodd yw cyfathrebu gonest, gan ei bod yn methu dweud y gwir wrth yr Hen Wŵr am ei gyflwr.

Ar ddiwedd y ddrama, mae'n rhythu i'r gwagle o'i blaen, fel petai hi mewn breuddwyd. Mae ei bywyd wedi diflannu mor sydyn: 'Croesi cae... dringo grisiau ... y cwbl mor sydyn ... llithro rhwng bysedd rhywun ... a'r cwbl ... er mwyn hyn?' (tud. 107)

Yna, wedi'r darn ffilm olaf, clywir sŵn trêrn yn rhuthro trwy'r tywyllwch yn y pellter. Daw gwên fach i wyneb yr Hen Wraig, ac yna sibryda'r gair 'Trêrn' – gair sy'n awgrymu bod diwedd y daith bron â chyrraedd, a bod yr orsaf yn prysur agosáu.

### Yr Hen Wŵr

Mae'r Gŵr wedi heneiddio'n arw bellach. Mae'n ddibynnol ar dabledi yn ogystal â bod yn ddibynnol ar yr Hen Wraig.

Ar ddechrau'r act, nid yw'n deall arwyddocâd y grisiau yn yr ystafell: '...awn ni ddim o fama, sdim isio blydi grisia arall.' Mae tinc o banig a phenbleth yn ei lais, a gwelir ef yn diystyrru arwyddocâd y grisiau, fel petai'n ymwrthod â'r syniad o farwolaeth. Wrth i'w wraig siarad am ddyfodiad eira ac oerni, mae'r Hen Wŵr fel petai'n ceisio ei orau glas i ddal gafael yn afiaith ieuentid – 'Dwi wrth fy modd hefo eira.' Yna, mae'n drysu wrth hel atgofion, a sylweddolwn ei fod yn ailadroddlyd a'i gof yn pallu. Eto i gyd, ymddengys mai ef yw'r iachaf o'r ddau ohonynt yn gorfforol. Pan syrthia'r jwg llaeth o ddwylo'r Hen Wraig gwna ei orau i'w helpu a'i chysuro. Mae'n cymryd gofal mawr ohoni, ac yn gymeriad mwy tadol yn yr act hon.

Ceisia ddarbwylllo ei wraig yn ei gwendid nad yw'r grisiau ar ei chyfer hi, ac mae'n mynd ati i addurno'r grisiau gydag addurniadau Nadolig. Ymhen dim o dro, mae'r ddau gymeriad yn taflu addurniadau dros y grisiau ac yn dechrau canu, yn union fel plant bach. Arweinia hyn at ragor o ramantu am ddigwyddiadau'r gorffennol.

Yna newidia'r Hen Wŵr dôn ei lais pan ddechreua sôn am *D.J. Electric*s eto. Cynhyrfa'n lân wrth sôn am y cwmni a chwympa ar y grisiau. Sylweddola fod y diwedd ar fin dod, felly mae'n llusgo ei hun yn araf i fyny'r grisiau. Mae'r Hen Wŵr yn llwyr ddibynnol ar yr Hen Wraig bellach – mae'r sefyllfa wedi newid eto o'i chymharu â'r sefyllfa pan gwmpodd yr Hen Wraig.

Ei brif broblem ar ddiwedd ei daith i fyny'r tŵr yw ei fethiant i dderbyn ffeithiau am ei fywyd – mae'n parhau i dwyllo'i hun. Gellid dadlau fod hyn yn dangos mai person gwan iawn ydyw sy'n methu wynebu problemau bywyd. Awgryma i'w fywyd fod yn fethiant a disgrifia'i hun fel 'cneuen wag'.

Yn yr olygfa nesaf gwelir diymadferthedd yr Hen Wŵr – ni all wneud dim drosto'i hun bellach, er bod ei feddwl yn dal yn effro. Yn eironig iawn, dywed yr hoffai ef 'Holides iawn eleni ... rwla 'don ni 'rioed wedi bod.' Wrth drafod y grisiau eto, dywed fod yn rhaid bod rhywbeth ar y pen draw iddynt: 'Ma' hi wedi bod mor galad... ma bownd o fod gwobr.' Mae'n ffwndro'n llwyr tua'r diwedd – cyfeiria'n freuddwydiol at nifer o'r pethau y soniwyd amdanynt yn ystod y ddrama. Ar ddiwedd yr olygfa, chwistrella'r Hen Wraig gyffur i'w fraich i'w gynorthwyo i gysgu'n dawel – am byth efallai.

Wrth iddo farw hyd yn oed, gwelwn pa mor anodd yw hi iddo ef a'r Hen Wraig ddweud y gwir wrth ei gilydd.

**Ystyriwch:**

1. Pam nad yw'r Hen Wŵr yn gallu gweld unrhyw beth drwy'r ffenestr? (tud. 79)
2. Sut buasech chi'n disgrifio ymddygiad yr Hen Wŵr ar waelod tudalen 79?
3. Ydy'r Hen Wraig a'i merch yng nghyfraith yn cyd-weld? Sut allwch chi brofi hyn?
4. Sut buasech yn disgrifio perthynas yr Hen Wŵr a'r Hen Wraig yn yr act hon?
5. Sut buasech yn disgrifio cymeriad yr Hen Wŵr yn yr act hon?
6. Pa ddigwyddiadau sy'n dangos eu bod yn heneiddio?
7. Pam mae'r ddau'n addurno'r grisiau?
8. Esboniwch ymddangosiad y Llanc ar ddiwedd y ddrama.
9. Beth yw prif themâu'r act olaf?

**Tasg:** Chwiliwch am enghreifftiau yn yr act olaf o'r nodweddion yma yng nghymeriad yr Hen Wraig a'r Hen Wŵr:

Hen Wraig	Hen Wŵr
Wedi syrffedu	Dibynnol ar ei wraig
Difaru	Hunan-dwyll
Derbyn ffeithiau	Anallu i gyfathrebu
Cenfigennus	Colli ei feddwl
Hen	Rhamantu am y gorffennol
Diamynedd	Methu derbyn ffeithiau bywyd
Rhamantu am y gorffennol	Methu dweud y gwir
Diffyg cyfathrebu	Tyner
Cariadus	



## 9. Iaith y ddrama

Un o'r elfennau yn *Y Tŵr* sy'n ychwanegu lliw, creu awyrgylch, rheoli tempo, cyflwyno cymeriad a pherthynas, cyfleu hiwmor a thrueni, yw'r amrywiaeth o gyweiriau iaith sydd i'w canfod yn y ddrama. Y mae seibiannau, yn ogystal, yn gallu mynegi ystod o emosiynau. Hefyd, mae cyfarwyddiadau llwyfan manwl yn gallu taflu goleuni ar ddehongliad llinellau.

Dyma enghreifftiau o'r cyweiriau gwahanol ynddi. Ystyriwch beth maen nhw yn ei gyfrannu i'r golygfeydd neu i'r sefyllfa.

'Dwi'n credu bod sŵn lleisiau a sŵn acenion eto yn brofiad theatrig. Bod yna fantais o ddefnyddio tafodiaith, sef miwisg geiriau.' (Gwenlyn Parry)

### Siarad byr yn symud yn gyflym o un cymeriad i'r llall

Gŵr: Be oedd hynna?

Gwraig: Be?

Gŵr: Rwbath...?

Gwraig: Chlywis i ddim.

Gŵr: Glywis i o'n blaen.

Gwraig: Sŵn, felly?

Gŵr: Math o sŵn.

Gwraig: Llais rhywun?

Gŵr: Naci... peth...tinc!

(tud. 48)

### Tafodiaith arw ardal Deiniolen – iaith lafar y gogledd

- ... mi oedd hi di cachu bans ar neb i 'nhroi i.
- 'Na ti rech 'lyb os buo' na un 'riod.
- Doedd o ddim yn mynd i wneud pric pwddin ohona i.
- ... y llipryn diawl... stwffia dy job medda fi... stwffia dy blydi job."

### Iaith farddonol

Merch: O'n i'n rhedeg trw'r cae yd 'ma ar ôl iâr fach yr ha... un fawr frown â smotia coch ar 'i hadenydd hi... rhuthro drw'r tyfiant nes oedd yr yd yn chwipio 'mocha fi... weithia o'n i yn 'i cholli hi... ond yn fuan iawn yn dŵad o hyd iddi bod tro... nes oedd yna ddim byd ar ôl ond esgyrn coch... a thylla gwag du.

(tud. 32-33)

### Iaith farddonol

Llanc: Dwy... galon yn curo... y gwaed yn byrlymu trwy'n gwythienna ni... clecian coed yn llosgi a chawod sydyn o law ar ddiwrnod poeth... caru nes bod o'n brifo... brifo nes bod o'n garu... dowc gynta'r tymor... torri ias nes bod dy geillia di'n rhwygo... caru'n din wal... tynnu amdanan yn grug... staen llus ar y nhrôns i... ogla mawn... ogla colcarth... ogla chwys mewn ysfa...

(Tud. 38)



**Rhegfeydd****Act 1:**

Llanc: A blydi ceg hefyd – be ddudodd yr hen ast wrthat ti?

Llanc: Ond dyna ddudist ti'r bitch glwyddog.

**Act 2:**

Gŵr: Nid rhyw blydi ponsan fel Preis.

Gŵr: Y bastard bach diegwyddor.

Gŵr: Yr hwrn! ... Yr hwrn!  
... Yr hwrn!

**Act 3:**

Hen Wŵr: A mi oedd y bastards yn gwobod hynny...

Hen Wraig: Dim rhegi! Ti 'nghlŵad i?

**Seibiannau**

Gŵr: (Yn gwylltio braidd) Oedd rhaid i mi 'i argyhoeddi o toedd?

Gwraig: Ond dim 'i fyddaru o!

Gŵr: (Yn bryderus ar ôl ysbaid) Dyna'r argraff ges ti 'ta?

Gwraig: (Saib. Edrych arno. Meddalu ychydig.) O'n i'n meddwl dy fod ti'n mynd braidd yn bell weithia.

Gŵr: (Yn sylwi ar ychydig o dynerwch yn ei llais) Ond ma' D.J. yn hoffi rhywun hefo drive dallt – hoffi siarad plaen ... heb flewyn ar dafod. (Saib) Fedar o ddim rhoi'r job i neb arall ... Fedar o ddim!

(Saib hir o ddistawrwydd. Mae'r wraig yn edrych arno fel petai'n gwybod yn well.)

**Iaith symbolaidd**

Gŵr: Be oedd hynna?

Gwraig: Be?

Gŵr: Rwbath...

Gwraig: Chlywis i ddim.

Gŵr: Glywis i o'n blaen.

Gwraig: Sŵn, felly?

Gŵr: Math o sŵn.

Gwraig: Llais rhywun?

Gŵr: Naci ... peth! Tinc!

Gwraig: Tinc?

Gŵr: Ne gnul ... cloch ... rwbath felly ... Arwydd falla...

Gwraig: Be ti'n feddwl?

Gŵr: I fynd.

**Cyfarwyddiadau llwyfan**

Symudiad y ddau at ei gilydd sydd yn bwysig yma a'r tensiwn rhywiol rhyngddynt:

Llanc: (Yn nesu at y ferch) Ma' pob man yn sych grimp hefo'r holl haul yma 'dan ni 'di gael. (Mae yn ei chyrraedd)

Merch: Wna i ddim cwyno chwaith – dwi wrth 'y modd hefo haul.

Llanc: (Yn ei throi yn araf tuag ato) A finna hefyd!

Merch: (Yn ei wynebu) Fiw i ni gwyno gormod.

Llanc: Fiw i ni! (Mae'n ei chusanu yn ysgafn)

## 10. Dyfyniadau defnyddiol

Efallai y byddwch chi yn gweld arwyddocâd arall yn y dyfyniadau isod. Does dim o'i le ar hynny.

### Y WRAIG

Merch	Arwyddocâd
Dy fam! Hi ddudodd te? ... Hi ddudodd wrthat ti am aros lawr fanna?	Dylanwad y fam ar y Llanc
Fama ma rhaid i ni aros am dipyn ... wel tan fyddan ni'n barod beth bynnag.	Am brofi cyfnod ieuenctid yn llawn
Di marw'n cyfri dim i mi – ar ôl marw ... be sy'n digwydd felly!... dwi'n hidio fflivjan am hynny ... sut bydda i'n marw 'di'r peth.	Ofn y profiad o farwolaeth
Pawb yn dweud celwydd wrthi [ei mam] bob dydd... bod hi'n edrach yn well ... sôn am holides ha', fasa byth yn dwad.	Ofn y diffyg gwybod am ei marwolaeth ei hun
Dyna pam ma rhaid i ni fwynhau rŵan ... ti'n dallt...? Bob munud ohono fo.	Byw bywyd i'r eithaf – bywyd yn diflannu'n rhy gyflym
Allwn i ddim diodda meddwl bod rhywun arall yn dy gael di.	Y cariad a'r atyniad rhyngddynt
Ma rwbath neis mewn sŵn trêrn yn bell yn y nos.	Gweld y trêrn fel arwydd o gyffro a phosibiliadau
Awn ni ddim ffordd yna ... yn bendant awn ni ddim i lawr y ffordd yna eto ... Byth eto!	Mae ddoe wedi mynd – does dim modd ail-fyw'r gorffennol
Pam da ni yma?... Ond pam y tŵr yma – pam dduthon ni i'r tŵr 'ma o gwbl?	Beth yw pwrpas bywyd / y tŵr
Tyd... law yn llaw... awn ni i fyny gyda'n gilydd.	Symbolleiddio perthynas y ddau – priodi
Ma rhaid i ni ddringo – 'sgynnon ni ddim dewis ... sgin i ddim dewis beth bynnag.	Beichiogrwydd – rhaid wynebu'r dyfodol gyda'i gilydd fel un

Gwraig	Arwyddocâd
Ma'n rhaid inni gymryd mwy o bwyll tro yma ... nid rhuthro fel o'r blaen.	Rhaid pwylllo ar yr ail lawr – nid gadael i fywyd eu rheoli nhw
Run peth fydda i ... run peth fyddi di.	Nid yw amser yn newid cymeriad
Ma popath yn marw y tymor yma ... gas gin i'r hydref.	Symbolleiddio diwedd cyfnod canol oed – symboliaeth yn y ddrama
Fydd y cnau ddim yn hir cyn pydru ... a'r mwyar duon yn slwtsh!	Symboliaeth tymor yr hydref yn y ddrama – diflastod bod cyfnod cyffro bywyd wedi dod i ben

Ma' rw bath trist mewn sŵn trê n – 'mhell yn y nos... Ffarwelio ... dagra ... mynd i rwla ... gadal!	Motif y trê n yn cael ei ddefnyddio i ddangos newid ym mhersonoliaeth a dealltwriaeth y wraig.
Mi a'th y cyfan mor sydyn ... croesi cae ... Dringo grisia... Dio ddim yn dy ddychryn di weithia?	Cyfleu prysurdeb bywyd – amser yn mynd o dan eu trwynau
Dwi ddim yn barod. [I ddringo'r grisiau] Ma' hi lawar rhy gynnar inni.	Symud tuag at henaint
[Ar ddiwedd yr act] Paid â mynd... Ti nghlwad i? Paid â ngadael i... aros funud... aros inni gael siarad... plîs... dwi ddim isio neb arall... ti ddim yn dallt.	Ofn unigrwydd y Wraig

Hen Wraig	Arwyddocâd
Ma'r grisia 'na'n mynd yn hirach bob tro.	Bywyd yn mynd yn anos
Ma ias eira ynnddi... synnwn i ddim na fydd 'na gnwd cyn bora.	Symboliaeth – tymor y gaeaf a henaint y ddau
Be sy'n digwydd... be sy'n digwydd i mi...? Nid y jwg... ti ddim yn dallt... Fi!... Fi!	Gweld y corff yn methu wrth heneiddio
Dwi isio i ti addo un peth i mi... Dwi isio i ti ddeud y gwir wrtha i bob amsar... dim twyllo... dim fel Mam... dweud yn blaen.	Thema marwolaeth – ofn marw
Y cyfan wedi mynd mor sydyn.	Bywyd yn darfod yn rhy sydyn – amser
Pan ddaw amsar... pan fydd dim ar ôl ... dim gobaith... dwi isio mynd! Fy ngollwng yn urddasol... dim twyllo... dim siarad am holides fydd byth yn dwad.	Dyhead am onestrwydd ac am ddiwedd urddasol
... cheith o monat ti... ddim rŵan... ddim rŵan 'ngwas i ... ofala i am hynny.	Thema marwolaeth a chariad – amharodrwydd i adael i'r Hen Wŵr farw
Ond ma 'na risia... fasa hi ddim yn arwain i nunlla, na fasa? Ma bownd fod rw bath... ar ôl yr holl draffarth... ma bownd fod gwobr.	I ble mae'r grisiau olaf yn arwain? Beth sydd ar ben y Tŵr?
Croesi cae... dringo grisia... y cw bwl mor sydyn... llithro rhwng bysedd rhywun... a'r cw bwl er mwyn hyn?	Beth sydd ar ben y Tŵr? Oes bywyd ar ôl marwolaeth?

## Y GŴR

Llanc	Arwyddocâd
Dan ni ddim hannar ffordd i fyny'r tŵr 'ma.	Teimlad bod digon o amser ar ôl – mae'r ddau yn ifanc a bywyd hir o'u blaenau
Ond ma' rhaid inni drafod y peth i ddechra – ma'n rhaid i ni drefnu.	Angen trefnu – angen cymryd pwyll; nid oedd am ymrwymo i berthynas yn rhy ifanc
Dwi ofn dim na neb yma am 'mod i'n dallt popath.	Yr ifanc – yn gwybod popeth ac yn ofni dim
Gad i ni neud yn fawr o be 'sgynnon ni am chydig... blasu'r cyfan tra 'dan ni'n cael y cyfla.	Am fwynhau cyfnod ieuenctid
Ma rhaid inni drefnu! ... dwi'n gwbod 'y nghyfrifoldeb.	Y gwahaniaeth rhwng y ddau – mae ef yn hoffi trefn a sicrwydd, tra mae'r Ferch yn ymddiried yn fwy i hap

Gŵr	Arwyddocâd
Sut byddwn ni'n gwbod 'ta... sut byddwn ni'n gwbod pryd i ddringo?	Pryd daw cyfnod canol oed i ben? Pryd mae henoed yn cychwyn?
Fedar o ddim rhoi'r job i neb arall... Fedar o ddim!	Awydd am lwyddiant a statws, a methu derbyn ei fethiant
Ti ddim yn meddwl 'mod i'n ddigon da nac wyt?	Ansicrwydd eu perthynas
[Wrth sôn am y trê] Falla ma' cyrraedd ma' nhw... dwad adra!	Dehongliad mwy positif i symboliaeth y trê
Y stafell ola ydi... y stafell ucha... ti ddim yn 'i gweld hi? Dyna'r wobwr am ddringo'r tŵr... bwrw dy flinder... ymlacio... gorffwyo!	Beth sydd ar ben y tŵr?
Da ni wedi mynd [i fyny'r grisiau] hefo'n gilydd bob tro.	Perthynas y ddau – eu ffyddlondeb
Dyna pam dwi allan ar 'y nhin... dwi ddim yn gwisgo'r tei iawn, nacdw?	Diflastod gyda'i fethiant i ddyrchafu ei hun

Hen Wŵr	Arwyddocâd
I be gythral ma' isio grisia arall?... Ond fama 'di'r stafell ddwytha ... awn ni ddim o fama... sdim isio blydi grisia arall!	Beth sydd yna yn fwy na'r diwedd olaf?
Ond dyna ddudon nhw... diwadd y daith... dim mwy o ddringo... dyna ddudon nhw.	Beth a phwy dylai dyn ei gredu wrth ystyried y cwestiynau crefyddol am ystyr bywyd?
Sdim byd uwchben... 'dan ni'n dop y tŵr... 'Sdim hoel cerddad arni... Di gythral o ddim ond... ornament!	Amau bod yna fywyd arall i ddod

Llithro trw fysadd rhywun...	Bywyd yn diflannu'n rhy sydyn
Peidio bod ofn – dyna'r peth ti'n gweld.	Thema marwolaeth
Ond roedd D.J.'n gwbod, o oedd... mi oedd D.J.'n gwbod ma gin i oedd yr asgwrn cefn... hogia'r werin... Dyna pam ges i'r job.	Arwydd o ffwandro a henaint yn yr act olaf, ac o hunan-dwyll wrth ailddehongli'r gorffennol
Mi fydd hi'n wahanol tro nesa... Dim ond un fydd yn mynd... dim hefo'n gilydd eto... dim ond un fydd yn mynd i fyny'r grisia 'na tro nesa.	Realiti marwolaeth – rhaid i un farw cyn y llall
Mynd ar goll ar y grisia... y meddwl yn peidio... y cof yn pallu.	Thema henaint
Chdi... chdi ddudodd o... pan ddaw'r amsar... pan fydd dim ar ôl... dim gobaith.	Thema marwolaeth a chelwydd

## 11. Crefft

Mae Gwenlyn Parry wedi adleisio'r hyn a ddywed y cymeriadau mewn un act drwy ailadrodd ac amrywio'r dweud yn yr act nesaf.

	ACT 1	ACT 2	ACT 3
<b>Y fam</b>	Mae'r Ferch yn yr act gyntaf yn cyhuddo'r Llanc o fyw yng ngysgod ei fam.	Erbyn yr ail act, mae'r Wraig yn fam ei hunan ac yn dyheu am gael gweld Gwyn yn dod adre o'r coleg.	Mae'r Hen Wraig erbyn hyn yn fam yng nghyfraith. '... a ti'n gwbod amdani <i>hi</i> .' Mae hi'n genfigennus iawn o'i merch yng nghyfraith ac yn credu mai hi sy'n rhwystro Gwyn a'r wyrion rhag dod i'w gweld dros y Nadolig. 'Rêl hen ast 'di'r wraig 'na sgywnno fo.'
<b>Marwolaeth</b>	Mae'r Ferch yn poeni sut y bydd hi'n marw – mae hi am wybod y gwir. 'Pawb yn deud clwydda wrthi bob dydd ... bod hi'n edrach yn well ... sôn am holides ha fasa byth yn dŵad.'	Mae'r Wraig yn casáu tymor yr Hydref: 'Ogla marw! Ma' popath yn marw y tymor yma ... gas gin i'r Hydref! Fydd y cnau ddim yn hir cyn pydru ... a'r mwyar duon yn slwtsh!'	Nid yw'r Hen Wraig am ddiodef wrth farw. 'Fy ngollwng ... yn urddasol ... dim twyllo ... dim siarad am holides fydd byth yn dŵad.'
<b>Godinebu</b>	Mae'r Ferch yn cyhuddo'r Llanc yn yr act gyntaf o gael perthynas gyda'r 'sguthan fach 'na sy ar y til.'	Mae'r Wraig wedi cael perthynas gyda D.J.	Wrth ffwndro yn yr act olaf mae meddwl yr Hen Wraig yn cofio'n ôl i'r actau blaenorol – nid yw'n cofio'r gwirionedd. Yn ei feddwl ffwndrus, y ferch yn y cantîn a gafodd berthynas gyda D.J. Nid yw'r Hen Wraig yn gallu edrych arno pan adrodda'r stori am fynd i fwrw'r Sul mewn gwesty.

<b>Y grisiau</b>	<p>Mae'r Ferch yn awyddus i ddringo'r grisiau: 'Mi fydd hi'n saffach fanno ... neb yn bysnesu!'</p> <p>Yn dringo'r grisiau law yn llaw gan gydio dwylo.</p>	<p>Mae'r Wraig yn awyddus i bwylo ar yr ail lawr: 'Gwell hwyr na rhy gynnar.'</p> <p>Mae'r Gŵr yn awyddus i ddringo i'r llawr uchaf.</p> <p>Ar ddiwedd yr act, mae'r Gŵr yn dringo'r grisiau ar ei ben ei hun a'r Wraig yn ei ddilyn ar ei phen ei hun.</p>	<p>Nid yw'r Hen Ŵr yn deall pam fod grisiau eraill ar y llawr olaf: 'diwadd y daith ... dim mwy o ddringo... dyna ddudon nhw.'</p> <p>Mae'r Hen Ŵr yn addurno'r grisiau gydag addurniadau Nadolig er mwyn eu cuddio fel nad yw'n gorfod wynebu realiti bywyd.</p> <p>Sylweddola'r Hen Ŵr y bydd yn rhaid i un ddringo'r grisiau olaf – ar ei ben ei hun. Nid fel y ddwy act flaenorol. 'Un yn gynta ... a'r llall wedyn.'</p>
<b>Y trê</b>	<p>Mae'r Ferch yn hoffi sŵn y trê yn y nos: 'Ma' rwbath neis mewn sŵn trê yn bell yn y nos.'</p>	<p>Erbyn hyn mae'r Wraig yn clywed sŵn y trê fel rhywbeth trist: 'Ma' rwbath trist mewn sŵn trê – 'mhell yn y nos. Ffarweilio ... dagra ... mynd i rwla – gadal!'</p>	<p>Dyma'r sŵn olaf a glywir ar y llwyfan. Daw gwên i wyneb yr Hen Wraig – fel petai'n gwybod bod y trê wedi cludo'r Hen Ŵr i ffwrdd i rywle gwell.</p>
<b>Nyrs</b>	<p>Mae'r Llanc yn cysylltu nyrsio gyda'r elfen rywiol: 'Da chi'r nyrsys yn ... wel ... yn gweld petha tydach ... pobl mewn gwllau a ballu? Dynion yn noeth ac ati.'</p>	<p>Mae'r Gŵr yn cysylltu ei gwaith fel nyrs gyda rhywioldeb eto wrth gyfeirio at D.J.: '... a gwely...o ia... rhaid cael gwely ... i'r patients orfadd ac ati... Pwy blydi gorfadd? Fo ydi'r unig batient sy'n dŵad atat ti'n ôl be dwi'n ddallt.'</p>	<p>Erbyn yr act olaf gwelwn yr Hen Wraig yn gofalu am yr Hen Ŵr fel nyrs, yr hyn yr hyfforddwyd hi i wneud. Mae hi'n coginio bwyd babi iddo, yn rhoi tabledi iddo a hi sy'n rhoi'r chwistrelliad olaf o gyffur iddo: 'Mi fyddi'n well ar ôl hon.'</p>

## 12. Trafod

- Cofiwch feddwl am eich ateb cyn dechrau siarad.
- Ceisiwch feddwl am eich atebion fel paragraffau yn hytrach na brawddegau.
- Gwrandewch ar aelodau eraill eich grŵp a cheisiwch ehangu ar bwytiau.
- Cofiwch hefyd ddyfynnu o'r ddrama er mwyn cyfoethogi eich atebion.

Dyma'r math o gwestiynau y gallai arholwr allanol ofyn i chi.

### Cymeriadau

1. Ydy'r Llanc a'r Ferch yn gymeriadau gwahanol? Ym mha ffyrdd?
2. Ydy'r Ferch yn aeddfetach na'r Llanc? Pam ydych chi'n credu hynny?
3. Beth yw dylanwad ei fam ar y Llanc?
4. Un o 'hogia'r graig... gwrthod llyfu tŷn...' Ydy hyn yn ddarlun cywir o'r Gŵr yn yr ail act?
5. Ai darlun o ŵr materol sydd yn yr ail act?
6. Disgrifiwch sut y mae'r ddau gymeriad yn heneiddio yn yr act olaf.
7. A oes awgrym mai'r Hen Wraig sydd yn lladd ei Gŵr?
8. I ba raddau ydych chi'n credu mai darlun o ddau gymeriad digrefydd sydd yn y ddrama?
9. 'Methiant, blydi methiant... cneuen wag...' Dyna ddisgrifiad yr Hen Ŵr o'i fywyd – ydy hyn yn wir?
10. Y presennol sy'n bwysig i'r ddau – ni allant wynebu'r dyfodol. Ydych chi'n cytuno?
11. Mae'r cymeriadau'n heneiddio – ond yn eu hanfod, yr un cymeriadau ydyn nhw. Ydych chi'n cytuno?
12. Sut mae'r ddau yn wynebu marwolaeth yn yr act olaf?
13. Ai'r ferch yw'r cymeriad cryfaf ym mhob act?
14. Ydyn nhw'n caru ei gilydd?

### Themâu

15. Ydy'r ddrama'n cyfleu thema twyll a rhagrith yn effeithiol?
16. Trafodwch yr elfen o ofn yn y ddrama.
17. A yw'r act gyntaf yn ddarlun da o bobl ifanc?



18. A oes cariad yn bodoli rhwng y ddau?
19. A oes ofn marw ar y ddau ohonyn nhw?

### Symbolau

20. Beth yw pwrpas y tŵr? Symbol o beth yw'r tŵr?
21. Pa ddefnydd mae'r dramodydd yn ei wneud o symboliaeth yn y ddrama? Ym mha ffyrdd y mae hyn yn effeithiol?
22. A oes awgrym fod rhywbeth ymhellach ar ben y tŵr?

### Crefft y ddrama

23. Ym mha ffyrdd mae'r dramodydd yn adleisio geiriau a delweddau o act i act? Sut mae hyn yn effeithio ar y ddrama yn eich barn chi?
24. Beth yw cyfraniad y gwahanol gyweiriau iaith i'r ddrama?
25. Ydy'r ddrama'n perthyn i theatr yr Absŵrd? Pa elfennau o'r ddrama fyddech chi'n dweud sy'n dystiolaeth o hynny?
26. Ym mha ffyrdd y mae'r defnydd o'r sgrin yng nghefn y llwyfan yn cyfrannu i'r ddrama fel cyfanwaith? Pa mor effeithiol ydyw?
27. Beth yw eich barn am effaith y goleuo yn y cyfarwyddiadau llwyfan?

### Cyffredinol

28. Beth yw neges Gwenlyn Parry yn y ddrama hon?